Design & Consultancy for natural and built assets

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD O'R FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

## Asesiad o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir: Adroddiad Sgrinio HRA Rhagarweiniol

EBRILL 2018

Incorporating

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-792-0

Mae Arcadis Consulting (UK) Limited yn gwmni cyfyngedig preifat a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestredig: 02212959). Swyddfa gofrestredig, Arcadis House, 34 York Way, London, N1 9AB. Rhan o'r Arcadis Group of Companies ynghyd ag endidau eraill yn y DU.

Hawlfraint © 2015 Arcadis. Cedwir pob hawl. arcadis.com

## RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Changes |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 19.12.2017 | JW | Strwythur yr Adroddiad Drafft |
| 0.2 | 10.01.2018 | JW | Adroddiad Sgrinio HRA Drafft |
| 0.3 | 05.03.2018 | JW | Diweddaru i adlewyrchu sylwadau LlC a Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 0.4 | 23.03.2018 | JW | Diweddaru i adlewyrchu sylwadau pellach LlC |
| | | | |
| | | | |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 23 Mawrth 2018 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y “Cleient”) yn unol â’r telerau ac amodau penodi, (y “Penodiad”) rhwng y Cleient ac **Arcadis (UK) Limited** (“Arcadis”) at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na’i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o’r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS


RHEOLI FERSIYNAU ........ II

1 CYFLWYNIAD ........ 1

1.1 Cefndir a Diben yr Adroddiad hwn ........ 1

1.2 Ymagwedd a Methodoleg ........ 3

2 SGRINIO AMCANION YR NDF ........ 5

3 SGRINIO OPSIYNAU GOFODOL YR NDF ........ 11

4 SGRINIO RHAGARWEINIOL AR OPSIWN GOFODOL A FFEFRIR YR NDF ........ 11

5 CRYNODEB A'R CAMAU NESAF ........ 24

ATODIAD A ........ 25

Synnwyr y Fawd ........ 25

RHEOLI FERSIYNAU ........ 2

1 CYFLWYNIAD ........ 1

1.1 Diben yr adroddiad hwn ........ 1

1.2 Beth yw HRA? ........ 1

1.3 Camau HRA ........ 2

1.4 Pam mae'r HRA yn berthnasol i'r NDF ........ 3

2 NODAU ........ 4

3 YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL WRTH LYWIO HRA CYNNAR ........ 5

3.1 Rhwydwaith Natura 2000 – Nodweddion Cymhwyso ac Amcanion Cadwraeth wedi'u crynhoi ........ 5

3.2 Cynigion yr NDF ........ 9

3.3 Llwybrau Effaith i'w hystyried ........ 10

4 SYNNWYR Y FAWD ........................................................................................15

5 CYFEIRIADAU ...........................................................................................................17

ATODIAD A – CATEGOREIDDIO'R HOLL SAFLEOEDD DYNODEDIG YNG NGHYMRU AC O FEWN 20KM I'R FFIN ........................................................................................1

ATODIAD B – FFIGURAU ..................................................................................................1

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir a Diben yr Adroddiad hwn

1.1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a fydd yn darparu cyd-destun gofodol ar gyfer datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae’r NDF yn rhan bwysig o’r system gynllunio yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am yr NDF a’r system gynllunio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

1.1.2 Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y ‘Rheoliadau Cynefinoedd’ wedi hyn) yn pennu bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar bob Cynllun a Phrosiect sydd â’r potensial i effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwys rhyngwladol, a elwir hefyd yn safleoedd Natura 2000 neu’n safleoedd Ewropeaidd. Yn y DU, Mae gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd hefyd wedi’u hymestyn i ystyried yr effeithiau ar safleoedd Ramsar (a restrwyd o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol). Mae’r ffaith y ceir safleoedd Natura 2000/Ramsar yng Nghymru, a’r effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu’r NDF sydd ar ddod, yn golygu felly bod yn rhaid cynnal asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.3 Mae’r ddogfen hon yn darparu gwaith sgrinio rhagarweiniol o’r effeithiau posibl a allai ddeillio o opsiwn gofodol a ffefrir yr NDF. Nid yw cynnwys y polisïau a’r cynigion wedi’i ddatblygu eto ac ni nodwyd ychwaith unrhyw wybodaeth ofodol fanwl am safleoedd dynodedig ar gyfer datblygu ar y cam cynnar hwn yn natblygiad yr NDF. HRA rhagofalus yw hwn o reidrwydd felly, ac mae’n cynrychioli asesiad rhagarweiniol er mwyn helpu i lywio’r polisi a ddatblygir. Nodir effeithiau posibl a allai ddeillio o’r mathau o bolisïau / mathau tebygol o ddatblygu a allai ddigwydd o ganlyniad i bolisïau penodol. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid yw’n hawdd gweld potensial ar gyfer effaith arwyddocaol tebygol ar y cam hwn a bydd angen mwy o sgrinio HRA ar bolisïau a chynigion yr NDF drafft wrth iddo ddatblygu. Mae Tabl 1 (isod) yn nodi camau’r NDF a mewnbynnau cyfatebol yr HRA.

*Tabl 1: Camau’r NDF a’r HRA*

| Cam yr NDF | Mewnbwn yr HRA |
|---|---|
| Casglu Tystiolaeth | Dogfen Synnwyr y Fawd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am ofynion yr HRA, manylion y safleoedd dynodedig yng Nghymru a’r math o lwybrau effaith y bydd angen eu hystyried drwy gydol y broses. Crëwyd ffeil System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i alluogi tîm cynllunio Llywodraeth Cymru i asesu lleoliadau datblygu posibl am bresenoldeb safleoedd dynodedig a’r mathau o ddatblygu a allai effeithio ar safleoedd o’r fath. Wedi’i ddylunio fel canllaw i gynorthwyo’r gwaith o ddatblygu amcanion, polisi a lleoliadau strategol. Mae’r ddogfen Synnwyr y Fawd wedi’i gynnwys yn Atodiad A. |
| Materion ac Opsiynau | Adolygu amcanion a rhoi adborth ar lafar i Lywodraeth Cymru, dim proses adrodd ffurfiol |
| Opsiwn a Ffefrir Drafft | Adroddiad Sgrinio HRA Rhagarweiniol (y ddogfen hon) – yn rhoi adolygiad lefel uchel o’r opsiwn a ffefrir drafft ac argymhellion i lywio’r broses barhaus o ddatblygu polisi’r NDF |
| ***Camau yn y Dyfodol*** | |
| NDF Drafft | Paratoir Adroddiad Sgrinio HRA ar gyfer yr NDF Drafft, ynghyd â’r Asesiad Priodol lle bo angen. |

| Cam yr NDF | Mewnbwn yr HRA |
|---|---|
| NDF Terfynol | Diweddaru Adroddiad Sgrinio'r HRA a/neu'r Asesiad Priodol lle bo angen |

## Beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

1.1.4 O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 o'r Rheoliadau Cynefinoedd), mae'n rhaid cynnal asesiad lle y gallai defnydd tir esgor ar effeithiau arwyddocaol ar safle Natura 2000 (a elwir hefyd yn 'safle Ewropeaidd'). Mae safleoedd Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (gan gynnwys ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (yACA)), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (AGAa)) a safleoedd Ramsar:

- dynodir ACA o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd oherwydd eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwys Ewropeaidd (yn cynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymwys – Atodiad I Cynefinoedd/Atodiad II Rhywogaethau).
- dynodir AGA o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt ar gyfer rhywogaethau adar prin, agored i niwed ac adar mudol rheolaidd a gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol (yn cynnwys Erthygl 4.1/4.2 adar).
- dynodir safleoedd Ramsar o dan y Confensiwn Ramsar oherwydd eu gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol (yn cynnwys Meini Prawf).

1.1.5 Gellir diffinio HRA fel a ganlyn:

*ystyriaeth fanwl o effaith y cynllun neu'r prosiect ar uniondeb y safle Natura 2000, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, o ran amcanion cadwraeth y safle a'i strwythur a'i swyddogaeth*[1]'

1.1.6 Yn hynny o beth:

- Uniondeb yw *'cydlyniad ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei ardal gyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y gyfres o gynefinoedd a/neu lefelau'r poblogaethau o rywogaethau y cafodd ei ddynodi o'u herwydd'* – ac felly mae hyn yn mynd y tu hwnt i effeithiau bychain;
- Caiff y goblygiadau i'r safle eu hasesu o ran ei amcanion cadwraeth (maint/cyflwr cynefinoedd, maint/statws poblogaethau – wedi'u nodi mewn Cynlluniau Rheoli Craidd, Cynlluniau Gwella Safle ac ati);
- Mae effaith yn arwyddocaol os byddai'n 'tanseilio amcanion cadwraeth' y safle (Arfarniad Waddenzee[2]) – mae hyn yn cynrychioli procsi ar gyfer effaith ar uniondeb safle.

1.1.7 Mae yn bosibl cael effeithiau arwyddocaol, ond o dan Erthygl 6(4) (o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr EC), os yw datblygiad yn debygol o arwain at effaith andwyol ar uniondeb safle Ewropeaidd, mae'n rhaid sicrhau:

- Nad oes ateb arall ar gael;
- Bod rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig i barhau â'r cynllun neu'r prosiect; a
- Bod mesurau lliniaru digonol ar waith (ac erbyn i'r effaith gael ei hamlygu) er mwyn cynnal cydlyniad y rhwydwaith Natura 2000.

[1] Rhoddir crynodeb o'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer pob math o safle Ewropeaidd (h.y. AGA, ACA, safle Ramsar) yn yr Adroddiad Synnwyr y Fawd yn Atodiad A, ynghyd â manylion am y nodweddion cymhwyso.
[2] Achos y CE C-127/02 *Reference for a Preliminary Ruling 'Waddenzee'* mis Medi 2004

### Deddfwriaeth a Chanllawiau

1.1.8 Gwnaed yr HRA yn unol â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'i diwygiwyd. Wrth wneud hynny, mae'r adroddiad sgrinio hwn wedi tynnu ar y canllawiau a ganlyn:

- Comisiwn Ewropeaidd, Managing Natura 2000 Sites: The provisions of Article 6 of the Habitats Directive 92/43/EEC.
- Comisiwn Ewropeaidd, Guidance document on Article 6(4) of the Habitats Directive 92/43/EEC.
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006) Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment – Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents.
- DTA Publications Limited, The Habitats Regulations Assessment Handbook.
- David Tyldesley (2012). Draft guidance for plan making Authorities in Wales: The Appraisal of Plans under the Habitats Regulations

## 1.2 Ymagwedd a Methodoleg

1.2.1 Roedd cam cyntaf yr HRA ar gyfer prosiect yr NDF yn cynnwys cyfnod o gasglu tystiolaeth ac ymchwil gefndirol i dynnu ynghyd fanylion safleoedd Ewropeaidd eraill y byddai angen cyfeirio atynt drwy gydol y broses. Er mwyn rhoi offeryn defnyddiol i dîm cynllunio Llywodraeth Cymru i'w alluogi i wirio'n syml pa un a allai unrhyw gynnig strategol ar gyfer unrhyw rai o elfennau gofodol yr NDF effeithio ar un safle neu fwy, crewyd ffeil GIS a oedd yn cynnwys yr holl safleoedd Ewropeaidd dynodedig yng Nghymru ac o fewn 20 cilometr o'r ffin. Ynghyd â'r ffeil GIS hwn, crewyd dogfen 'Synnwyr y Fawd' (gweler Atodiad A); darparodd y ddogfen hon drosolwg o'r categorïau bras y gellir dyrannu safleoedd Ewropeaidd iddynt a'r mathau o effeithiau a allai ddigwydd o ganlyniad i wahanol fathau o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r NDF a sut y gallent effeithio ar wahanol fathau o safleoedd Ewropeaidd mewn gwahanol ffyrdd. Rhannwyd y manylion yn y ddogfen Synnwyr y Fawd â thîm cynllunio Llywodraeth Cymru i'w helpu yn ystod y broses o ddatblygu'r polisïau a'r opsiynau, gan sicrhau bod goblygiadau posibl y cynllun ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar yn cael eu hystyried drwy gydol y broses.

1.2.2 Datblygwyd cyfres o amcanion ac opsiynau gofodol drafft yr NDF ym mis Hydref 2017, a oedd yn cynnwys pedwar opsiwn gofodol drafft ac opsiwn meincnodi yn ogystal â drafft cyntaf o'r amcanion. Yn dilyn adolygiad o'r opsiynau a'r amcanion drafft, rhoddwyd adborth llafar am oblygiadau posibl yr opsiynau a'r amcanion drafft hyn ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar i dîm cynllunio Llywodraeth Cymru. O ystyried y lefel gyfyngedig o fanylder a roddwyd ar y cam cynnar hwn, penderfynwyd nad oes angen adroddiad HRA ffurfiol ar gyfer y dogfennau drafft. Rhoddir asesiad lefel uchel o'r opsiynau gofodol yn Adran 3 (isod).

1.2.3 O ystyried natur lefel uchel yr NDF, ar y cam hwn, sef yr opsiwn gofodol a ffefrir, nid oes unrhyw bolisïau gofodol penodol yn nodi cyfleoedd datblygu neu leoliadau posibl wedi'u nodi. Heb fanylion penodol, nid yw'n bosibl cadarnhau pa un a fyddai'r amcanion neu'r cyfeiriadau strategol gofodol yn cael effaith arwyddocaol tebygol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar ai peidio. Ar y cam hwn felly, yr unig beth y gellir ei wneud yw adolygu amcanion a chyfeiriad gofodol polisïau'r NDF i nodi pa un a oes goblygiadau *posibl* ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i'r strategaeth. Wrth i'r polisïau gael eu datblygu ar gam nesaf proses yr NDF, bydd modd gwneud gwaith sgrinio mwy manwl, er bydd yn ofynnol o ran rhai polisïau i'r HRA manwl gael ei wneud ar sail cynllun haen is pan fydd mwy o fanylion ar gael.

1.2.4 Mae'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r NDF wedi'u dyrannu i un o 12 o gategorïau yn ôl y ffyrdd y gallai'r amcan neu'r polisi effeithio ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Caiff y rhain eu disgrifio yn Nhabl 2, isod, ac maent yn deillio o'r Habitats Regulations Handbook (DTA Publications Limited). O ystyried natur ailadroddol yr HRA, caiff yr ymarfer sgrinio hwn ei ailadrodd wrth i bolisïau mwy manwl ddod i'r amlwg. Felly, mae'n bosibl bod polisïau y nodwyd bod potensial iddynt for yn arwyddocaol ar

eu pen eu hunain wedi'u categoreiddio felly ar sail ragofalus, oherwydd diffyg tystiolaeth sy'n dangos *na fyddai* yn arwain at effeithiau arwyddocaol.

*Tabl 2: Categorïau'r Asesiad Sgrinio*

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| Categori A: | **Datganiadau polisi cyffredinol/dyheadau cyffredinol**. Dylai polisïau nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle. |
| Categori B: | **Polisïau sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion**. Ni all y polisïau cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan. |
| Categori C: | **Cynigion y cyfeirir atynt ond nad ydynt wedi'u cynnig gan y cynllun**. Dylid sgrinio allan unrhyw gyfeiriadau at gynigion penodol am brosiectau, megis y rheiny a nodir, er enghraifft, mewn fframweithiau polisi uwch megis Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n ymwneud efallai â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff y rhain eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Mae gofyn y cwestiwn a ganlyn yn 'brawf' defnyddiol' o p'un a ddylai prosiect gael ei sgrinio allan ar y cam hwn:<br>'A gynigir/darperir ar gyfer y prosiect yn rhan o gynllun neu raglen arall ac a fyddai'n debygol o fwrw ymlaen o dan y cynllun neu raglen arall heb ystyried pa un a yw'r cynllun hwn yn cael ei fabwysiadu neu heb gyfeirio ato?'<br>Os 'byddai' yw'r ateb, byddai fel arfer yn briodol sgrinio'r prosiect allan ar y cam hwn. |
| Categori D: | **Polisïau Diogelu'r Amgylchedd/gwarchod safleoedd**. Polisïau yw'r rhan sydd â'r diben amlwg o ddiogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, a/neu gadw neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol, lle byddai mesurau gwella yn anhebygol o gael unrhyw effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd. Gellir eu sgrinio allan gan fod gweithredu'r polisïau yn debygol o ddiogelu safleoedd Ewropeaidd yn hytrach na chael effaith andwyol, ac ni fyddent yn tanseilio'r amcanion cadwraeth. |
| Categori E: | **Polisïau neu gynigion sy'n llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol**. Bydd effaith y polisïau neu'r cynigion hyn yn llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd y gallai'r newidiadau effeithio ar eu nodweddion cymhwysol, ac felly geir eu sgrinio allan. |
| Categori F: | **Polisïau neu gynigion na allant arwain at ddatblygu neu newid arall**. Polisïau nad ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at ddatblygu neu newidiadau eraill, er enghraifft, gan eu bod yn ymwneud â dylunio neu feini prawf ansoddol eraill ar gyfer datblygu, megis deunyddiau ar gyfer datblygiad newydd. Nid ydynt yn sbarduno unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau eraill a allai effeithio ar safle Ewropeaidd a gellir eu sgrinio allan. |
| Categori G: | **Polisïau neu gynigion na allai gael unrhyw effaith andwyol ddirnadwy ar safle**. Polisïau sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle Ewropeaidd, am nad oes unrhyw gysylltiad achosol neu gysylltiad rhyngddynt hwy a nodweddion cymhwyso unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ac felly gellir eu sgrinio allan. |
| Categori H: | **Polisïau neu gynigion na allai eu heffeithiau (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) danseilio'r amcanion cadwraeth (naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau eraill ar y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill)**. Polisïau neu gynigion sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau o'r un cynllun, neu o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly gellir eu sgrinio allan. Gallai'r rhain gynnwys achosion lle bo rhai effeithiau posibl a fyddai (yn ddamcaniaethol hyd yn oed o'u cyfuno) yn amlwg yn anarwyddocaol ac ni fyddai modd iddynt danseilio'r amcanion cadwraeth. |

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| Categori I: | **Polisïau neu gynigion ag effaith arwyddocaol debygol ar safle ar eu pen eu hunain**. Dylai polisïau neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar eu pen eu hunain gael eu sgrinio i mewn. |
| Categori J: | **Polisïau neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain**. Byddai'r agweddau hyn ar y cynllun yn cael rhywfaint o effaith ar safle, ond nid yw'r effaith yn debygol o fod yn arwyddocaol; felly mae angen eu hystyried o safbwynt effeithiau cronnus (o'u cyfuno ag eraill). Byddant wedyn yn cael eu hail-gategoreiddio naill ai i Gategori K (dim effaith arwyddocaol o'u cyfuno) neu Gategori L (yn debygol o gael effaith arwyddocaol o'u cyfuno), fel yr eglurir isod. |
| Categorïau K a L: | **Polisïau neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad (K), neu'n debygol o gael effaith arwyddocaol mewn cyfuniad (L) ar ôl y prawf cyfuno**. Lle y gallai agwedd ar gynllun gael rhywfaint o effaith ar nodwedd(ion) cymhwyso safle Ewropeaidd, ond na fyddai effeithiau yr agwedd honno o'r cynllun ar eu pen eu hunain yn arwyddocaol, byddai angen yn gyntaf ystyried effeithiau'r agwedd honno ar y cynllun o'u cyfuno ag effeithiau eraill yr un cynllun, ac yna o'u cyfuno ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill.<br>h.y. mae polisïau neu gynigion na fyddant yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar eu pen eu hunain nac o'u cyfuno yn cael eu rhoi yng Nghategori K. Mae polisïau neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol o'u cyfuno yn cael eu rhoi yng Nghategori L. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i bolisïau neu gynigion Categori L o ran effeithiau posibl o'u cyfuno. Yn gyntaf, gwneir hyn mewn cysylltiad ag agweddau eraill ar y Cynllun ei hun, ac yna mewn cysylltiad â chynlluniau neu brosiectau ar wahân, er enghraifft Cynlluniau Lleol cyfagos. |

1.2.5 Wrth i bolisïau manylach ddatblygu ar gam nesaf yr NDF, gallai gwaith sgrinio pellach ei gwneud yn bosibl i ragor o bolisïau gael eu sgrinio allan o'r angen am asesiad pellach. Os nad oes digon o fanylion ar gael ar y lefel hon, dylid cynnwys geiriad priodol i sicrhau bod gofynion HRA yn cael eu hymgorffori i'r cynlluniau haen is.

# 2 SGRINIO AMCANION YR NDF

2.1.1 Mae 10 amcan drafft yr NDF a nodwyd ar y cam opsiynau strategol wedi'u hadolygu a'u mireinio i roi opsiwn a ffefrir sy'n cynnwys rhestr o 12 o amcanion trosfwaol ynghyd ag is-amcanion cysylltiedig sy'n cyfrannu at y thema gyffredinol.

2.1.2 Darperir asesiad sgrinio o bob amcan a'r goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar yn Nhabl 3, isod.

*Tabl 3: Amcanion yr NDF a goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar*

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| **1. Newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni** | | |
| **1.1** Galluogi newid i economi carbon isel | Mwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i gynnydd yn nifer y datblygiadau ynni adnewyddadwy (gan gynnwys ffermydd gwynt, ffermydd solar, môr-lynnoedd llanw), a allai arwain at effeithiau uniongyrchol a/neu anuniongyrchol.<br>Yn y tymor hwy, byddai lliniaru newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i'r newid i economi carbon isel yn fuddiol i safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| | posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE1 a PE2 (gweler Tabl 4, isod). | |
| **1.2** Galluogi rheolaeth o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddynt | Mae’n bosibl y bydd angen seilwaith megis cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd neu gynlluniau rheoli arfordirol eraill er mwyn addasu i gynnydd yn lefel y môr oherwydd newid yn yr hinsawdd. Gallai datblygiadau o’r fath arwain at fwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar, yn enwedig safleoedd arfordirol.<br><br>Gallai gwelliannau wrth reoli adnoddau dŵr fod yn fuddiol i rai safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan DN2 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **1.3** Cefnogi datgarboneiddio yng Nghymru a helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o ran nwyon tŷ gwydr ac ynni adnewyddadwy. | Dyhead cyffredinol.<br><br>Mae effeithiau posibl newid i economi carbon isel er mwyn cyrraedd y targedau (ac felly cyflawni’r amcan cyffredinol o gynyddu ynni adnewyddadwy) wedi’u hamlinellu yn Amcan 1.1 a’r polisïau cysylltiedig sydd wedi’u sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach. | Wedi’i sgrinio allan |
| **2. Ffyniant economaidd ac adfywio** | | |
| **2.1** Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni seilwaith sy’n cefnogi twf economaidd a gwyrdd. | Mae’n bosibl y gallai prosiectau seilwaith newydd megis ffyrdd newydd arwain at fwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE8 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **2.2** Cefnogi’r sectorau cenedlaethol a sylfaenol; a thwf ac arloesedd mewn economi carbon isel. | Gallai twf mewn arbenigeddau sector ac economi carbon isel arwain at fwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i ddatblygiadau newydd, pe byddai cynlluniau wedi’u lleoli’n agos at ardaloedd dynodedig.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE8 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **2.3** Cefnogi economïau rhanbarthol cryf. | Er mwyn cefnogi economïau rhanbarthol cryf, mae’n bosibl y bydd datblygiadau newydd yn dod y tu allan i’r canolfannau diwydiannol presennol.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan R2, R3 ac R4 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **2.4** Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb a darparu cyfeiriad | Dyhead cyffredinol. | Wedi’i sgrinio allan |

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| strategol ar gyfer mentrau adfywio. | | |
| **3. Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf** | | |
| **3.1** Cefnogi darpariaeth effeithiol bargeinion dinas-ranbarthau a bargeinion twf ledled Cymru. | Drwy fuddsoddi mewn dinasoedd presennol a rhanbarthau ehangach yng Nghymru i wella seilwaith a chreu swyddi, ceir potensial am fwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 and Ramsar o ganlyniad i ddatblygiadau newydd, pe byddai'r cynlluniau wedi'u lleoli yn agos at safleoedd dynodedig.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan R3 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **4. Cymru Wledig** | | |
| **4.1** Galluogi darpariaeth swyddi, gwasanaethau a seilwaith er mwyn cryfhau cymunedau gwledig a chadw pobl ifanc yn yr ardaloedd gwledig. | Mwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i ddatblygiadau sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a gwella seilwaith mewn ardaloedd gwledig a allai fod yn agos at ardaloedd dynodedig.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan R4 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **4.2** Cefnogi cadernid ac arallgyfeirio yn yr economi wledig. | Gallai newidiadau i ddefnydd tir drwy arallgyfeirio yn yr economi wledig arwain at fwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan R5 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **5. Tai** | | |
| **5.1** Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored, wedi'i gysylltu â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol ac ardaloedd o dwf. | Mwy o fygythiad i safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i ddatblygiadau tai newydd, Gallai datblygiadau o'r fath arwain at effeithiau anuniongyrchol a/neu anuniongyrchol, gan gynnwys cynnydd yn y pwysau o ran galwadau hamdden oherwydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan AS1 ac R2 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **6. Adnoddau Naturiol, yr Economi Gylchol a Llifogydd** | | |
| **6.1** Cryfhau cadernid asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd dynodedig. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i bolisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a phrosiectau haen is dilynol, gynnal a gwella cadernid safleoedd dynodedig; felly ni all arwain at effaith | Wedi'i sgrinio allan |

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| | negyddol ar safleoedd Ewropeaidd | |
| **6.2** Cefnogi rheolaeth gynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a hwyluso adfer ym myd natur. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i bolisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a phrosiectau haen is dilynol, gynnal a gwella cadernid safleoedd dynodedig; felly ni all arwain at effaith negyddol ar safleoedd Ewropeaidd<br>Fodd bynnag hyd nes y daw manylion i law am sut y bydd y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni, ni ellir cadarnhau na fydd effeithiau andwyol yn deillio o bolisïau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan DN1 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **6.3** Diogelu, hyrwyddo a gwella tirweddau o bwys cenedlaethol. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i bolisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a phrosiectau haen is dilynol, gynnal a gwella cadernid safleoedd dynodedig; felly ni all arwain at effaith negyddol ar safleoedd Ewropeaidd | Wedi'i sgrinio allan |
| **6.4** Darparu cyfeiriad strategol i reoli ac addasu i'r perygl posibl o lifogydd. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau bod polisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a phrosiectau haen is dilynol yn cynnwys cadernid yn erbyn llifogydd, fel sy'n briodol. Er na fyddai cynnwys systemau amddiffyn rhag llifogydd mewn datblygiadau newydd o reidrwydd yn arwain at unrhyw effeithiau ychwanegol uwchlaw'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, lle bo angen cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd penodol (megis uwchraddio amddiffynfeydd morol ac ati), bydd angen i'r polisïau sicrhau bod y goblygiadau yn cael eu hystyried yn llawn.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan DN2 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **6.5** Sicrhau effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau a chefnogi datblygiad yr economi gylchol. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i bolisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a phrosiectau haen is dilynol gefnogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a chefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.<br>Fodd bynnag hyd nes y daw manylion i law am sut y bydd y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni, ni ellir cadarnhau na fydd effeithiau andwyol yn deillio o bolisïau sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn.<br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan DN1 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **6.6** Cefnogi lleihau llygredd a gwella ansawdd aer, sŵn a dŵr. | Bydd yr amcan hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i bolisïau o fewn yr NDF, ac unrhyw gynlluniau a | Wedi'i sgrinio i mewn ar gyfer |

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| | phrosiectau haen is dilynol gynnwys mesurau i leihau gweithgareddau sy’n llygru. Mae amcan o’r fath yn anhebygol o esgor ar effeithiau arwyddocaol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar; fodd bynnag, hyd nes y daw manylion pellach i law ar sut y cyflawnir y lleihad mewn llygredd a’r gwelliannau mewn ansawdd aer, sŵn a dŵr, ni ellir cadarnhau na fydd effeithiau andwyol yn deillio o bolisïau sy’n gysylltiedig â’r amcan hwn.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan DN2 (gweler Tabl 4, isod). | asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **6.7** Cefnogi cyflawni amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn destun ei HRA ei hun ar hyn o bryd, a bydd y polisïau o fewn yr NDF sy’n effeithio ar ranbarthau arfordirol yn cael eu hystyried yn yr asesiad cyfunol.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE10 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **7. Diwylliant a Threftadaeth** | | |
| **7.1** Diogelu, hyrwyddo a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol cenedlaethol. | Dim llwybrau effaith y gellir eu nodi. | Wedi’i sgrinio allan |
| **7.2** Cefnogi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau diwylliannol cenedlaethol newydd. | Gallai’r amcan hwn arwain at ddatblygiad newydd a allai esgor ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan DN6 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **8. Trafnidiaeth** | | |
| **8.1** Cefnogi lleihad mewn teithio mewn cerbydau preifat a thwf mewn cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. | Gallai’r amcan o leihau nifer y teithiau mewn car esgor ar effeithiau buddiol i safleoedd Natura 2000 a Ramsar drwy leihau lefel y llygryddion yn yr aer. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn trafnidiaeth gyhoeddus negyddu rhai o’r buddion hyn pe byddai, er enghraifft, llwybrau bysiau yn agos at ardaloedd dynodedig. Ystyrir bod effeithiau posibl yn anhebygol ond ni ellir eu diystyru ar y cam hwn. Gallai lwybrau beicio neu gerdded newydd hefyd gael rhai effeithiau andwyol wrth darfu ar y safleoedd.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan AS4 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **8.2** Hwyluso darpariaeth a gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth | Gallai datgarboneiddio a gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth allweddol esgor ar gynlluniau ffyrdd newydd | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer |

| Amcan | Goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd | Casgliad Sgrinio |
|---|---|---|
| allweddol er mwyn datgarboneiddio teithio. | â’r nod o leddfu llwybrau lle ceir tagfeydd a gwaith uwchraddio arall; gallai hyn esgor ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar, pe byddai cynlluniau wedi’u lleoli’n amhriodol.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE3, PE8 ac AS5 (gweler Tabl 4, isod). | asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **9. Y Gymraeg** | | |
| **9.1** Cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau a helpu i greu’r amodau ar gyfer gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Dyhead cyffredinol. Dim llwybrau effaith y gellir eu nodi. | Wedi’i sgrinio allan |
| **10. Iechyd a Llesiant** | | |
| **10.1** Cefnogi ffyrdd o fyw iach ac egnïol a gwella mynediad at wasanaethau. | Gallai’r amcan hwn arwain at fod mwy o bobl yn dewis ymarfer corff yn yr awyr agored mewn mannau naturiol a allai gynnwys ardaloedd dynodedig. Ystyrir bod effeithiau posibl yn anhebygol ond ni ellir eu diystyrru ar y cam hwn.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan AS4 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **10.2** Cefnogi lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru. | Dim llwybrau effaith y gellir eu nodi. | Wedi’i sgrinio allan |
| **11. Seilwaith digidol** | | |
| **11.1** Cefnogi darpariaeth seilwaith digidol a helpu i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o sicrhau gwasanaethau telegyfathrebu a band eang ar draws 100% o Gymru. | Gallai’r amcan hwn arwain at ofyniad am osod ceblau neu waith seilwaith arall a allai, pe byddai wedi’i leoli o fewn/gerllaw safle Natura 2000 neu Ramsar, arwain at golli cynefinoedd a/neu ddarnio, neu effeithiau ar hydroleg.<br><br>Mae yna bosibilrwydd y gallai hyn esgor ar effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ond caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach o dan PE3 (gweler Tabl 4, isod). | Wedi’i sgrinio i mewn ar gyfer asesiad pellach o dan bolisïau cysylltiedig o fewn yr NDF. |
| **12. Cymunedau Cydlynus** | | |
| **12.1** Cefnogi darpariaeth cymunedau cydlynus. | Mae’r amcan hwn yn sicrhau bod darpariaeth elfennau eraill yr NDF yn cael ei chynnal mewn ffordd sy’n cefnogi ac yn gwella cymunedau. Mae datblygiadau a allai ddigwydd i gyflawni’r amcan hwn yn cael eu hasesu o dan yr amcanion a’r polisïau eraill o fewn yr NDF. | Wedi’i sgrinio allan |

# 3 SGRINIO OPSIYNAU GOFODOL YR NDF

3.1.1 Cyhoeddwyd Amcanion ac Opsiynau Gofodol Drafft yr NDF ar gyfer ymgysylltu mewnol ac allanol ym mis Medi 2017. Roedd yr amcanion a'r opsiynau draft yn cynrychioli cam cyntaf y broses o baratoi'r ddogfen ymgynghori fanwl. Nodwyd pedwar opsiwn gofodol ac un opsiwn meincnodi, bob un â phwyslais gwahanol o ran cyfeiriad cynlluniau, rhaglenni a strategaethau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r gofyniad ar gyfer yr NDF ei hun wedi'i nodi yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, ac mae'n rhaid i'r amcanion a'r opsiynau gofodol felly gyfochri â'r strategaeth hon.

3.1.2 Nodwyd pedwar opsiwn gofodol ac opsiwn meincnodi. Ystyriodd y rhain amcanion draft yr NDF a chawsant eu datblygu gyda phwyslais gwahanol er mwyn rhoi arwydd o sut y byddai canlyniadau yn amrywio ar draws y gwahanol ofynion. Dyma'r opsiynau gofodol:

- Pwyslais ar y Gymuned
- Pwyslais ar y Farchnad
- Pwyslais ar Ddatgarboneiddio
- Pwyslais ar Gadernid Adnoddau Naturiol
- Peidio â Pharatoi'r NDF

3.1.3 O ystyried natur lefel uchel iawn yr opsiynau hyn, ni chynhaliwyd unrhyw waith sgrinio HRA ffurfiol ar y cam hwn. Yn hytrach, cynhaliwyd trafodaethau â thîm gynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi trosolwg cyffredinol o'r gwahanol opsiynau dan ystyriaeth. Penderfynwyd mai'r opsiwn yn canolbwyntio ar Gadernid Adnoddau Naturiol fyddai'r opsiwn mwyaf deniadol o ran lleihau'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg manylion gofodol o fewn yr opsiynau, ni allai'r asesiad ddod i unrhyw gasgliadau pendant.

# 4 SGRINIO RHAGARWEINIOL AR OPSIWN GOFODOL A FFEFRIR YR NDF

4.1.1 Mae'r opsiynau gofodol draft a nodwyd ar gam yr opsiynau strategol bellach wedi'u hadolygu a'u mireinio er mwyn darparu opsiwn gofodol a ffefrir. Mae Opsiwn a Ffefrir yr NDF yn nodi sut y bydd y system cynllunio defnydd tir yn cefnogi nod hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae gan Opsiwn a Ffefrir yr NDF ddwy swyddogaeth allweddol: darparu cyfeiriad strategol ar gyfer twf a seilwaith newydd a nodi meysydd newid, diogelu, gwella a lliniaru; a sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer polisi gofodol strategol. Mae wedi'i ddatblygu ar sail pum thema:

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

4.1.2 Dylid ystyried Opsiwn a Ffefrir yr NDF ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru (PPW), sy'n pennu polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae pob cyfeiriad gofodol, a'r trosolwg polisi strategol

cysylltiedig, wedi’i sgrinio i bennu’r goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Ewropeaidd. Lle y ceir llwybrau effaith posibl, gwneir argymhellion ar gyfer mesurau polisi lliniarol lle bo hynny’n briodol neu’n bosibl. Gall mesurau o’r fath gael eu defnyddio wedyn i lywio cam nesaf y broses o ddatblygu’r polisi. Nodir canlyniadau’r asesiad sgrinio yn Nhabl 41 (isod).

4.1.3 Nid yw’r thema Creu Lleoedd yn cynnwys cyfeiriadau gofodol a pholisïau strategol penodol, ac felly nid yw wedi’i chynnwys yn Nhabl 4 (isod). ‘Datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd’, ‘Iechyd a llesiant’, a ‘cymunedau cydlynus a’r Gymraeg’ yw’r tair agwedd gofodol ar y thema Creu Lleoedd. Mae’n rhaid i benderfyniadau a wneir i gefnogi themâu eraill a’r polisïau strategol a gynhwysir o’u mewn ddangos yn gyntaf eu bod yn gydnaws â’r thema Creu Lleoedd.

*Tabl 4: Asesiad Strategaeth Ofodol ac Argymhellion*

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoedd Unigryw a Naturiol** | | | | |
| **DN1-** Nodi adnoddau naturiol cenedlaethol. | Bydd polisïau yr NDF yn cynnal ac yn gwella adnoddau naturiol, yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ac yn lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau | Bydd polisïau yr NDF sy'n datblygu ar gyfer y cyfeiriad strategol hwn yn darparu ar gyfer gwelliant yn y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Er na ystyrir bod effeithiau negyddol arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd yn anhebygol yn sgil polisïau o'r fath, hyd nes y caiff manylion polisïau yr NDF eu cadarnhau, nid yw'n bosibl diystyru'r potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Mae'n bosibl y bydd angen datblygiadau newydd er mwyn galluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol. Byddai'n rhaid i unrhyw bolisïau sy'n darparu ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sicrhau yr eir i'r afael yn llawn â'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar cyn y rhoddir caniatâd cynllunio. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith pellach i ddatblygu polisïau o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **DN2 –** Nodi ardaloedd o risg amgylcheddol posibl, nawr ac yn y dyfodol | Bydd polisïau'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau newydd yn osgoi ardaloedd o risg amgylcheddol ac yn datblygu cadernid yn erbyn risgiau llifogydd, ansawdd aer, ansawdd dŵr, cynnydd mewn tymereddau, colled cynefinoedd ac ecosystemau. | Bydd polisïau yr NDF sy'n datblygu ar gyfer y cyfeiriad strategol hwn yn darparu ar gyfer gwelliant yn y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a byddent yn sicrhau yr eir i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd aer a dŵr.<br>Gallai gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd esgor ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd arfordirol a'r rheiny sy'n gysylltiedig â chyrsiau dŵr. Byddai'n rhaid i unrhyw bolisïau sy'n darparu ar gyfer cynlluniau amddiffynfeydd llifogydd sicrhau yr eir i'r afael yn llawn â'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar cyn y rhoddir caniatâd cynllunio. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith pellach i ddatblygu polisïau o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau safleoedd Natura 2000 a Ramsar, yn enwedig mewn cysylltiad ag amddiffynfeydd llifogydd.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **DN3 –** Bydd tirweddau | Bydd polisïau'r NDF yn | Bydd polisïau'r NDF sy'n datblygu ar gyfer y | D | Mae angen i eiriad y polisi |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| o bwys cenedlaethol, morweddau, safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd yn cael eu nodi. Nodir hefyd cyfleoedd ar gyfer twf, ehangu, mwy o gysylltedd a gwella. | ei gwneud yn ofynnol bod tirweddau a morweddau o bwys cenedlaethol a safleoedd cadwraeth natur a chynefinoedd yn cael eu diogelu a'u gwella. | cyfeiriad gofodol hwn yn darparu ar gyfer diogelu a gwella safleoedd Ewropeaidd. Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o bolisïau o'r fath. | Wedi'i sgrinio allan | sicrhau ei fod yn cynnig digon o ddiogelwch os yw polisïau eraill o fewn yr NDF yn dibynnu ar bolisïau o dan y cyfeiriad gofodol hwn fel dull diogelu. |
| **DN4 –** Bydd ecosystemau o bwys cenedlaethol yn cael eu nodi. | Bydd polisïau'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i atgyfnerthu cadernid ecosystemau o bwys cenedlaethol drwy fwy o amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr a'r gallu i addasu. | Bydd polisïau'r NDF sy'n datblygu ar gyfer y cyfeiriad gofodol hwn yn darparu ar gyfer diogelu a gwella diogelu a gwella ecosystemau o bwys, y byddai llawer ohonynt wedi'u lleol o fewn ardaloedd dynodedig. Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o bolisïau o'r fath. | D<br>Wedi'i sgrinio allan | Ddim yn berthnasol |
| **DN5 –** Bydd seilwaith gwyrdd cenedlaethol a chyfleoedd ar gyfer seilwaith newydd yn cael eu nodi. | Bydd polisïau'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu a gwella ac yn hwyluso darpariaeth seilwaith gwyrdd newydd. | Bydd polisïau'r NDF sy'n datblygu ar gyfer y cyfeiriad gofodol hwn yn darparu ar gyfer diogelu a gwella seilwaith gwyrdd.<br>Gallai polisïau sy'n hwyluso seilwaith gwyrdd newydd arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, pe byddai prosiectau o'r fath wedi'u lleoli o fewn ardaloedd dynodedig neu gerllaw.<br>Gallai gwaith yn gysylltiedig â seilwaith gwyrdd newydd esgor ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Byddai angen i unrhyw bolisïau sy'n darparu ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd sicrhau yr eir i'r afael yn llawn ag unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar cyn y rhoddir caniatâd cynllunio. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith pellach i ddatblygu polisïau o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau safleoedd Natura 2000 a Ramsar, yn enwedig mewn cysylltiad â seilwaith gwyrdd newydd.<br>Dylid edrych ar gyfleoedd am gysylltedd rhwng safleoedd Ewropeaidd a'u hymgorffori i bolisïau lle bo hynny'n bosibl.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **DN6 –** Bydd asedau hanesyddol a diwylliannol o bwys cenedlaethol yn cael | Bydd polisïau'r NDF yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu, hyrwyddo a gwella asedau | Gallai darparu datblygiadau diwylliannol cenedlaethol newydd esgor ar effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar; fodd bynnag, ni cheir digon o fanylion ar y cam hwn | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| eu nodi. Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiadau diwylliannol newydd yn cael eu nodi. | diwylliannol a hanesyddol a hwyluso datblygiadau diwylliannol cenedlaethol newydd. | er mwyn cynnal asesiad ystyrlon.<br><br>Ystyrir ei bod yn anhebygol y bydd polisïau sy’n ymwneud â diogelu, hyrwyddo a gwella asedau diwylliannol a hanesyddol yn debygol o esgor ar unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen sgrinio’r polisïau sy’n datblygu o fewn yr NDF mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiadau newydd. | | Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus** | | | | |
| **PE1 –** Bydd cynlluniau cynhyrchu ynni o bwys cenedlaethol, cynlluniau storio a seilwaith dosbarthu yn cael eu nodi. Bydd lleoliadau ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy ar raddfa genedlaethol yn cael eu nodi. | Bydd polisïau’r NDF yn cefnogi targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, gan gynnwys bod 70 y cant o’r trydan a ddefnyddir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 a bod capasiti ynni adnewyddadwy a berchnogir yn lleol yn cyrraedd, yn cyrraedd 1 GW erbyn 2030. Bydd polisïau yn cefnogi hyn drwy amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, cynlluniau storio a seilwaith dosbarthu. | Gallai ffynonellau newydd o ynni adnewyddadwy esgor ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Yn arbennig, gallai datblygiadau ynni gwynt newydd, sydd o reidrwydd wedi’u lleol mewn ardaloedd gwledig, gael eu lleoli yn agos at ardaloedd dynodedig a gallai arwain at effeithiau uniongyrchol a/neu anuniongyrchol ar safleoedd o’r fath.<br><br>Bydd yn rhaid i effeithiau arwyddocaol tebygol gael eu cydbwyso â buddion economi carbon isel o ran lleihau allyriadau a llygryddion cysylltiedig ledled Cymru. | I<br><br>Wedi’i sgrinio i mewn | Mae’n rhaid cynnwys gofynion ar gyfer asesiadau ecolegol a mesurau lliniaru/digolledu yng ngeiriad y polisi er mwyn roi ystyriaeth lawn i unrhyw safleoedd Natura 2000 a Ramsar cyfagos.<br><br>Lle nad yw polisïau o fewn yr NDF ei hun yn rhoi manylion gofodol penodol, gellir rhoi’r gofynion am HRA ar bolisi haen is sy’n cynnig mwy o eglurder gofodol; fodd bynnag bydd yn rhaid i eiriad y polisi o fewn yr NDF sicrhau bod asesiadau o’r fath yn ofyniad cyn y rhoddir unrhyw ganiatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiadau. |
| **PE2 –** Cymru gyfan | Bydd polisïau’r NDF yn cynnig fframwaith ar gyfer cynlluniau cynhyrchu a dosbarthu ynni datganoledig, lleol, | Bydd polisïau sy’n gysylltiedig â’r cyfeiriad gofodol hwn yn creu fframwaith ar gyfer darparu cynlluniau ynni carbon isel, er na fyddent o bosibl yn nodi lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau; fodd bynnag, mae gan | I<br><br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n berchen i'r gymuned ledled Cymru gyfan. | unrhyw gynlluniau ynni adnewyddadwy y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Gallai'r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu yn fwy clir ar ôl i fwy o fanylion polisi'r NDF ddod i law. | | Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **PE3 –** Cymru gyfan | Bydd polisïau'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer seilwaith digidol modern ledled Cymru a byddant yn ei gwneud yn ofynnol i gapasiti technolegol gael ei gynnwys yn nyluniad datblygiadau newydd, seilwaith newydd (gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth) ac ardaloedd twf ac adfywio. | Bydd polisïau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad gofodol hwn yn creu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith digidol modern, er na fyddant o bosibl yn nodi lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau.<br><br>Mae gan waith i uwchraddio ceblau a/neu seilwaith ceblau newydd y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, er bod effeithiau arwyddocaol hirdymor yn anhebygol os yw unrhyw waith o fewn cynefinoedd sensitif neu'n agos atynt yn cael ei reoli'n briodol a'i adfer, fodd bynnag, hyd nes y daw rhagor o fanylion y polisi i law, ni ellir diystyrru'r potensial am effeithiau.<br><br>Gallai'r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu yn fwy clir ar ôl i fwy o fanylion polisi'r NDF ddod i law. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **PE4 –** Bydd ardaloedd gwastraff, mwynau a chyflogaeth o bwys cenedlaethol yn cael eu nodi. Bydd lleoliadau ar gyfer twf o arwyddocad cenedlaethol, gan gynnwys prosiectau yn gysylltiedig â chysylltedd, seilwaith ac ardaloedd twf, yn cael eu nodi. | Bydd polisïau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau sy'n helpu i wireddu amcanion datgarboneiddio, y newid i economi carbon isel a'r economi gylchol. | Gallai polisïau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad gofodol hwn nodi lleoliadau ar gyfer prosiectau datblygu arwyddocaol. Mae prosiectau o'r fath yn debygol o fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac fel y cyfryw, byddai'n ofynnol cael HRA yn rhan o'r broses o wneud cais cynllunio. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Mae'n rhaid cynnwys gofynion am asesiadau ecolegol priodol a mesurau lliniaru/digolledu yng ngeiriad y polisi er mwyn sicrhau bod y datblygiadau yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw safleoedd Natura 2000 a Ramsar cyfagos, lle bo hynny'n berthnasol.<br><br>Lle nad yw polisïau o fewn yr NDF ei hun yn rhoi manylion gofodol penodol, gellir rhoi'r gofynion am HRA ar bolisi haen |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | is sy'n cynnig mwy o eglurder gofodol; fodd bynnag bydd yn rhaid i eiriad y polisi o fewn yr NDF sicrhau bod asesiadau o'r fath yn ofyniad cyn y rhoddir unrhyw ganiatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiadau. |
| **PE5 –** Lleoliadau presennol a newydd ar gyfer sectorau twf economaidd o bwys cenedlaethol. | Bydd polisïau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau cenedlaethol allweddol. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys hwyluso'r seilwaith sydd ei angen er mwyn cefnogi'r twf hwn. | Bydd polisïau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad strategol hwn yn creu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau economaidd allweddol, er na fyddant eu hunain yn nodi lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau.<br><br>Gallai'r polisïau esgor ar effeithiau posibl; er enghraifft, gallai polisïau sy'n hwyluso seilwaith arwain at ffyrdd newydd neu osodiadau ceblau/pibellau newydd ac ati. Fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu yn fwy clir ar ôl i fwy o fanylion polisi'r NDF ddod i law. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |
| **PE6 –** Cymru gyfan | Bydd polisïau'r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi twf gan gynnwys yn y sectorau sylfaenol, sy'n cynnwys sectorau gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu ledled Cymru. | Bydd polisïau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad gofodol hwn yn creu fframwaith i gefnogi twf mewn sectorau sylfaenol, er na fyddent eu hunain yn nodi lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau.<br><br>O'r sectorau a nodwyd, twf mewn twristiaeth sy'n debygol o fod â'r potensial mwyaf am effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar o ganlyniad i darfu gan gynnydd mewn pwysau hamdden, a bydd angen asesu polisïau sy'n datblygu ymhellach er mwyn pennu pa mor arwyddocaol y byddai effeithiau o'r fath yn debygol o fod.<br><br>Gallai'r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi'r NDF ddod i law. | I<br>Wedi'i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar, yn enwedig mewn cysylltiad i bwysau gweithgareddau hamdden.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| **PE7 –** Ffin Cymru – Lloegr. | Bydd polisïau’r NDF yn hyrwyddo datblygu cynllunio gofodol economaidd ar draws y ffin, cynllunio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth, er mwyn amlhau i’r eithaf y canlyniadau cadarnhaol, hirdymor ar gyfer rhanbarthau cyfagos Cymru a Lloegr fel ei gilydd. | Mae’r cyfeiriad gofodol hwn yn ymwneud â datblygu ar hyd ffin Cymru–Lloegr. Mae nifer o safleoedd Natura 2000 a Ramsar wedi’u lleoli ar y naill ochr i’r ffin a’r llall, a gallai datblygiadau sy’n deillio o’r polisïau hyn gael effaith andwyol arnynt.<br><br>Gallai’r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | I<br><br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **PE8 –** Bydd ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr o bwys cenedlaethol yn cael eu nodi. Caiff cynigion ar gyfer buddsoddiadau newydd mewn seilwaith gan gynnwys trydaneiddio’r rheilffordd, hybiau trafnidiaeth cyhoeddus a chynlluniau metro yn cael eu nodi. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth newydd a phresennol er mwyn datgarboneiddio’r sector trafnidiaeth, gwella cysylltedd a gwella ansawdd aer. | Bydd polisïau sy’n gysylltiedig â’r cyfeiriad gofodol hwn yn creu fframwaith ar gyfer uwchraddio seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol, er na fyddent eu hunain yn nodi lleoliadau penodol ar gyfer datblygiadau.<br><br>Gallai’r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | I<br><br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **PE9 –** Bydd ardaloedd adfywio a dargedir yn genedlaethol yn cael eu nodi. | Bydd polisïau’r NDF yn mynnu gweithgareddau adfywio, yn cefnogi buddion iechyd a llesiant ac yn canolbwyntio ar adeiladu lleoedd sy’n creu swyddi, yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd ac yn darparu’r amgylchedd i fusnesau allu tyfu a | Mae polisïau sy’n ymwneud ag adfywio yn debygol o ganolbwyntio’n bennaf ar safleoedd diffaith/adfeiledig a fyddai â llai o botensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar; fodd bynnag, hyd nes y daw rhagor o fanylion i law, ni ellir diystyrru’r potensial am effeithiau andwyol.<br><br>Gallai’r polisïau sy’n gysylltiedig â’r cyfeiriad gofodol hwn esgor ar effeithiau posibl; caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o | I<br><br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | ffynnu. | fanylion polisi’r NDF ddod i law. | | |
| **PE10 –** Bydd dynodiadau’r Cynllun Morol Cenedlaethol a phrosiectau cenedlaethol sydd â pherthynas rhwng y môr a’r tir yn cael eu nodi. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith i sicrhau darpariaeth prosiectau a pholisïau sy’n ymdrin â chyfundrefnau cynllunio môr a thir. | Mae polisïau sy’n ymwneud â datblygiadau sy’n effeithio ar ardaloedd arfordirol yn debygol iawn o esgor ar effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar oherwydd presenoldeb safleoedd dynodedig ar hyd rhan helaeth o arfordir Cymru. Mae’r WNMP draft hefyd wedi bod yn destun HRA, a nododd canlyniadau draft yr asesiad hwnnw bedwar maes polisi a allai esgor ar effeithiau andwyol posibl ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, sef ‘Agreg’, ‘Dyframaethu’, ‘Porthladdoedd a Morgludiant’ ac ‘Ynni – Carbon Isel’ (ac eithrio gwynt gan nad oes unrhyw leoliadau strategol wedi’u nodi). Mae’r HRA draft ar gyfer y meysydd polisi hyn yn nodi mesurau lliniaru gan gynnwys polisïau amddiffynol cyffredinol o fewn yr WNMP a gofyniad i gynnal HRA ar lefel y prosiect. Mae Polisi ELC_01 mewn cysylltiad â môr-lynoedd llanw wedi cyrraedd Cam 4 (IROPI) y broses HRA. Ar hyn o bryd, mae’r WNMP yn destun ymgynghoriad ac felly mae’n bosibl y bydd yn newid a allai effeithio ar gasgliad yr HRA cysylltiedig.<br><br>Gallai’r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Dylai polisïau hefyd roi ystyriaeth i ganfyddiadau HRA y Cynllun Morol Cenedlaethol a sicrhau cydnawsedd rhwng polisïau’r ddwy strategaeth genedlaethol.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol** | | | | |
| **AS1 –** Cymru gyfan | Bydd polisïau’r NDF yn mynnu bod datblygiadau tai strategol yn gysylltiedig â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol (gan gynnwys iechyd ac addysg) ac | Mae’r polisïau hyn yn pennu’r gofynion strategol ar gyfer lleoli datblygiadau tai newydd. Mae’r gofynion i sicrhau bod datblygiadau yn gysylltiedig â seilwaith cysylltedd a chyfleusterau allweddol yn awgrymu y byddai’r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd wedi’u lleoli yn agos at ganolfannau | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried y goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | ardaloedd o dwf; ac yn cefnogi'r nod o ddarparu swyddi a chyfleusterau gwell yn nes at adref. | trefol presennol; fodd bynnag, ni ellir diystyrru'n gyfan gwbl y potensial i ddatblygiadau newydd effeithio ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Gallai'r polisïau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad gofodol hwn esgor ar effeithiau posibl; caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi'r NDF ddod i law. | | datblygu. |
| **AS2 –** Cymru gyfan | Mae polisïau'r NDF yn mynnu bod datblygiadau tai strategol yn diwallu anghenion pawb a bod y mathau o dai sydd eu hangen yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag ystyriaethau yn ymwneud â niferoedd a lleoliadau. | Bydd y polisïau hyn yn canolbwyntio ar y gofynion o ran y mathau o dai, yn hytrach nag ar y lleoliad, ac felly ni fyddent yn arwain at unrhyw effaith arwyddocaol debygol o ganlyniad i'w gweithredu. | A<br><br>Wedi'i sgrinio allan | Byddai angen i unrhyw waith datblygu polisïau pellach ystyried polisïau eraill o fewn yr NDF sy'n nodi lleoliadau gofodol ar gyfer datblygiadau tai newydd. |
| **AS3 –** Cymru gyfan. | Bydd polisïau'r NDF yn nodi rhagamcaniad tai a phoblogaeth ar sail polisi cenedlaethol, a fydd yn cynnwys ystod Cymru gyfan o ffigurau tai ar gyfer cyfnod y cynllun. | Bydd y polisïau hyn yn nodi rhagamcaniad poblogaeth a thai ac ni fyddent yn arwain yn uniongyrchol at ddatblygu.<br><br>Gallai'r polisïau esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu'n gliriach o dan bolisïau sy'n gysylltiedig ag AS1. | A<br><br>Wedi'i sgrinio allan | Further development of policies will need to take into account other policies within the NDF that identify spatial locations for new housing developments. |
| **AS4 –** Bydd seilwaith teithio llesol cenedlaethol (gan gynnwys cerdded a beicio) yn cael ei nodi. Bydd gwellliannau i seilwaith presennol a chyfleoedd ar gyfer seilwaith teithio llesol newydd yn cael eu nodi. | Bydd polisïau'r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau i seilwaith presennol a a seilwaith teithio llesol newydd (gan gynnwys cerdded a beicio). | Bydd polisïau'r NDF sy'n datblygu ar gyfer y cyfeiriad gofodol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith teithio llesol. Tybir y bydd polisïau o'r fath yn canolbwyntio ar seilwaith cerdded a beicio mewn ardaloedd trefol, gan gynnig llwybrau amgen diogel i gymudwyr er mwyn lleihau nifer y teithiau mewn car.<br><br>Gallai polisïau sy'n hwyluso seilwaith teithio llesol esgor ar effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar, pe byddai prosiectau o'r fath wedi'u lleoli mewn ardaloedd dynodedig neu'n | I<br><br>Wedi'i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br><br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau'r NDF sy'n datblygu. |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | agos atynt.<br>Gallai’r polisïau sy’n gysylltiedig â’r cyfeiriad gofodol hwn esgor ar effeithiau posibl; caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | | |
| | | | | |
| **Rhanbarthau Cymru** | | | | |
| **R1 –** Bydd tri rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y fframwaith yn cefnogi twf yn seiliedig ar gryfderau gwahanol y rhanbarthau, i greu economïau cadarn, mwy amrywiol, cymunedau cysylltiedig a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol. | Bydd y polisïau hyn yn nodi fframwaith cynllunio rhanbarthol ac mae’n anhebygol y byddant yn arwain yn uniongyrchol at ddatblygu. Byddai cyfleoedd i gynnwys polisïau sy’n diogelu safleoedd Natura 2000 a Ramsar o fewn y fframwaith yn cynnig mesurau diogelu lefel uchel yn erbyn cynigion datblygu anaddas o fewn cynlluniau haen is. | A<br>Wedi’i sgrinio allan | Gallai polisïau i ddiogelu safleoedd dynodedig fod yn ofyniad ar gyfer cynlluniau haen is, er mwyn darparu polisi diogelu o fewn yr NDF. |
| **R2 -** Bydd tri rhanbarth – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. | Bydd polisïau’r NDF yn nodi rhagfynegiadau tai a phoblogaeth ar sail polisi rhanbarthol, a fydd yn cynnwys ystod ranbarthol o dai ar gyfer cyfnod y cynllun. | Bydd y polisïau hyn yn darparu rhywfaint o fanylion gofodol mewn cysylltiad â nifer cyffredinol y tai ar gyfer pob rhanbarth. Er bod y polisïau hyn yn darparu mwy o ddatrysiad gofodol na’r hyn a geir o dan AS3, mae’n anhebygol y gellid cwblhau asesiadau ystyrlon tan fod polisïau/cynlluniau wedi’u darparu sy’n nodi dyraniadau a lleoliadau tai penodol.<br>Gallai polisïau o’r fath esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | NDF ddod i law. | | |
| **R3 –** Bydd dinas-ranbarthau ac ardaloedd y fargen twf yn cael eu nodi. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer ardaloedd dinas-ranbarthau ac ardaloedd y fargen twf sy’n gysylltiedig, yn hygyrch ac wedi’u cynllunio’n dda, a hynny drwy ddarpariaeth gydgysylltiedig trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol, ynni a seilwaith digidol, tai a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol. | Mae’r polisïau hyn yn debygol o ganolbwyntio ar ganolfannau datblygu presennol, felly mae’r potensial am effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar yn debygol o fod yn gyfyngedig.<br>Gallai polisïau o’r fath esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **R4 –** Bydd ardaloedd gwledig o fewn y tri rhanbarth yn cael eu nodi’n fras. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer seilwaith tai gwledig, gwasanaethau a chyfleusterau (gan gynnwys iechyd ac addysg), cyflogaeth a chysylltedd (digidol a thrafnidiaeth) er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig Cymru yn cadw ac yn denu pobl. | Bydd y polisïau hyn yn darparu rhai manylion gofodol am ddatblygiadau mewn ardaloedd gwledig. Mae datblygu gwledig yn debygol o ddigwydd yn nes at safleoedd Natura 2000 a Ramsar na chynlluniau trefol, ac felly mae yna fwy o botensial iddynt effeithio ar safleoedd o’r fath.<br>Gallai polisïau o’r fath esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |
| **R5 -** Bydd ardaloedd gwledig o fewn y tri rhanbarth yn cael eu nodi’n fras. | Bydd polisïau’r NDF yn darparu fframwaith ar gyfer ymateb i’r heriau a’r cyfleoedd sy’n deillio o ymadael â’r UE yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd cefnogi amaethyddiaeth a busnesau, a darparu | Gallai polisïau sy’n deillio o’r cyfeiriad strategol hwn arwain at newid mewn defnydd tir o ganlyniad i arallgyfeirio amaethyddol, a newidiadau i’r ddeddfwriaeth gyffredinol sy’n dylanwadu ar benderfyniadau. Gallai newidiadau o’r fath esgor ar effeithiau ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar.<br>Gallai polisïau o’r fath esgor ar effeithiau posibl; fodd bynnag, caiff y goblygiadau eu | I<br>Wedi’i sgrinio i mewn | Bydd angen i waith datblygu polisïau pellach o dan y fframwaith hwn ystyried goblygiadau ar gyfer safleoedd Natura 2000 a Ramsar<br>Bydd angen rhagor o waith asesu ar bolisïau’r NDF sy’n datblygu. |

| Mater Gofodol | Cyfeiriad Polisi Strategol | Goblygiadau Posibl ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd | Categori Sgrinio | Argymhellion / Opsiynau Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | fframwaith clir ar gyfer arallgyfeirio a chydgysylltu â strategaethau allweddol y Llywodraeth yn amcanion polisi allweddol. | hasesu’n gliriach ar ôl i fwy o fanylion polisi’r NDF ddod i law. | | |

# 5 CRYNODEB A'R CAMAU NESAF

5.1.1 Mae sgrinio'r Opsiwn a Ffefrir drafft ar gyfer yr NDF wedi nodi meysydd polisi sydd â'r potensial i esgor at effeithiau ar Safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Mae dau Amcan - y Gymraeg a Chymunedau Cydlynus - wedi eu sgrinio allan yn gyfan gwbl rhag cael eu hasesu eto. O'r 10 Amcan sy'n weddill, mae pump is-amcan wedi'u sgrinio allan, ac mae'r gweddill wedi eu sgrinio i mewn ar gyfer eu hasesu eto drwy'r polisïau cysylltiedig a fydd yn darparu dull o fodloni'r amcanion.

5.1.2 Nid yw'r ddogfen Opsiwn a Ffefrir drafft, er hyn, yn cynnwys digon o fanylion gofodol i ganiatáu asesiad cynhwysfawr o'r effeithiau posibl ar Safleoedd Natura 2000 a Ramsar, ac felly wrth reswm mae casgliadau'r Sgriniad HRA Rhagarweiniol hwn yn rhagofalus. Mae Polisïau Strategol a allai arwain at ddatblygiadau yn agos i Safleoedd Natura 2000 a Ramsar, neu a allai effeithio arnynt, wedi'u nodi a, pan fo'n bosibl, mae'r mathau o effeithiau a allai ddigwydd wedi'u disgrifio. Mae pob Cyfeiriad Gofodol a disgrifiad Polisi Strategol wedi eu categoreiddio yn unol â Chategorïau Sgrinio Cyhoeddiadau'r DTA (gweler Tabl 1, uchod). Pan fo potensial na ellir sgrinio allan Effeithiau Arwyddocaol Tebygol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r cyfeiriad gofodol a'r polisïau sy'n datblygu wedi eu sgrinio i mewn er mwyn eu hasesu ymhellach.

5.1.3 O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae angen asesu effeithiau posibl yr NDF o'u cyfuno â Chynlluniau neu Brosiectau presennol neu arfaethedig eraill. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion yn y fersiwn bresennol o'r opsiwn a ffefrir o'r NDF i gynnal asesiad ystyrlon o'u cyfuno.

5.1.4 Bydd yr asesiad o'u cyfuno yn cynnwys adolygiad o'r NDF yn ei gyfanrwydd ac yn darparu naratif ar y potensial i'r gwahanol bolisïau a amlinellir ynddo gynyddu'r potensial ar gyfer effeithiau tebygol arwyddocaol o'u cyfuno. Bydd hefyd yn sicrhau bod digon o ddulliau diogelu yn yr NDF i sicrhau y bydd yn ofynnol i Gynlluniau haen is roi sylw dyledus i Safleoedd Natura 2000 a Ramsar wrth ddatblygu polisïau a neilltuo tir ar gyfer datblygiadau. Caiff y potensial ar gyfer effeithiau o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill sydd y tu allan i gwmpas yr NDF hefyd ei adolygu a'i asesu, pan fo hynny'n bosibl.

5.1.5 Cynhelir Sgriniad HRA manwl arall wrth i Bolisïau mwy manwl yr NDF ymddangos (yn enwedig, yr elfennau gofodol) a'r Asesiad Priodol dilynol (gan gynnwys yr asesiad o'u cyfuno) ar yr elfennau a sgriniwyd i mewn o'r NDF, pan fo hynny'n ofynnol. Yna caiff yr HRA drafft ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r NDF drafft.

# ATODIAD A

## Synnwyr y Fawd

# NDF LLYWODRAETH CYMRU

## ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD: SYNNWYR Y FAWD

AWST 2017

# CYNNWYS

**JO WEAVER**
**Uwch Ecolegydd**

ff +44 (0)1453 423124
s +44 (0)7809 594186
e jo.weaver@arcadis.com

Arcadis.
The Mill
Brimscombe Port
Stroud
GL5 2QG
Y Deyrnas Unedig

# NDF Llywodraeth Cymru

## HRA Synnwyr y Fawd


| | |
|---|---|
| Awdur | Jo Weaver/Michelle Robertson |
| Gwiriwr | Jo Weaver |
| Cymeradwywr | Jon Davies |
| Rhif yr Adroddiad | 001-UA009148-EEC-01 |
| Dyddiad | GORFFENNAF 2017 |


## RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Newidiadau |
|---|---|---|---|
| 01 | 03/07/2017 | JW | Cyhoeddiad Cyntaf |
| 02 | 18/08/2017 | JW | Diweddariad yn dilyn trafodaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a LIC |
| 03 | 23/03/2018 | JW | Wedi'i ddiweddaru i fod yn gydnaws â'r Adroddiad HRA Rhagarweiniol |
| | | | |
| | | | |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 18 Awst 2017 ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi dyddiedig 02 Rhagfyr 2016 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis (UK) Limited** ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson(au) ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS

RHEOLI FERSIYNAU....2

1 CYFLWYNIAD....1
1.1 Diben yr adroddiad hwn....1
1.2 Beth yw HRA?....1
1.3 Camau HRA....2
1.4 Pam mae'r HRA yn berthnasol i'r NDF....3

2 NODAU....4

3 YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL WRTH LYWIO HRA CYNNAR....5
3.1 Rhwydwaith Natura 2000 – Nodweddion Cymhwyso ac Amcanion Cadwraeth wedi'u crynhoi....5
3.2 Cynigion yr NDF....9
3.3 Llwybrau Effaith i'w hystyried....10

4 SYNNWYR Y FAWD....15

5 CYFEIRIADAU....17

# ATODIADAU

ATODIAD A

Synnwyr y Fawd

ATODIAD A – CATEGOREIDDIO'R HOLL SAFLEOEDD DYNODEDIG YNG NGHYMRU AC O FEWN 20KM I'R FFIN

ATODIAD B – FFIGURAU

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Diben yr adroddiad hwn

1.1.1 Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd' wedi hyn) yn pennu bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar bob Cynllun a Phrosiect sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd dynodedig ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwys rhyngwladol, a elwir hefyd yn safleoedd Natura 2000 neu'n safleoedd Ewropeaidd.

1.1.2 Gan fod safleoedd Natura 2000 yng Nghymru, bydd angen eu hasesu, ynghyd â'r effeithiau posibl yn sgil rhoi'r NDF ar waith, o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.3 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi nodweddion cymhwyso y safleoedd Natura 2000 sydd i'w gweld yng Nghymru; mae'n darparu crynodeb o'r amcanion cadwraeth y mae angen eu hystyried wrth asesu'r effeithiau posibl ar bob safle; a nodi'r mathau o effeithiau a all ddigwydd o ganlyniad i weithredu amryw o bolisïau a datblygiadau.

1.1.4 Y diben yw darparu canllaw cyflym i dîm cynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn gallu nodi'n gynnar y potensial i unrhyw bolisïau neu gynigion a gyflwynir i'w hystyried yn yr NDF arwain at effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000. Dylai hyn wedyn alluogi cynigion a fyddai'n debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000 i gael eu dileu o'r NDF, neu eu haddasu ar gam cynnar o'r broses i sicrhau mai'r cynigion lleiaf niweidiol yn unig a gaiff eu dwyn ymlaen. Mae ymagwedd o'r fath, sy'n tynnu ynghyd gofynion HRA o gychwyn cyntaf datblygu'r cynllun, yn caniatáu am ymagwedd arloesol ac arfer gorau at HRA ar lefel Cynllun. Bydd sicrhau yr ystyrir effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 drwy gydol datblygiad yr NDF hefyd yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) drwy gyflawni llawer o'r nodau a nodir yn y Ddeddf.

## 1.2 Beth yw HRA?

1.2.1 O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 o'r Rheoliadau Cynefinoedd), mae'n rhaid cynnal asesiad lle y gallai defnydd tir esgor ar effeithiau arwyddocaol ar safle Natura 2000 (a elwir hefyd yn 'safle Ewropeaidd'). Mae safleoedd Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (gan gynnwys ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (yACA)), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (AGAa)) a safleoedd Ramsar:

- dynodir ACA o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd oherwydd eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwys Ewropeaidd (yn cynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymwys – Atodiad I Cynefinoedd/ Atodiad II Rhywogaethau).
- dynodir AGA o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt ar gyfer rhywogaethau adar prin, agored i niwed ac adar mudol rheolaidd a gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol (yn cynnwys Erthygl 4.1/4.2 adar).
- dynodir safleoedd Ramsar o dan y Confensiwn Ramsar oherwydd eu gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol (yn cynnwys Meini Prawf).

1.2.2 Gellir diffinio HRA fel a ganlyn:

*'Ystyriaeth fanwl o effaith y cynllun neu'r prosiect ar uniondeb y safle Natura 2000, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, o ran amcanion cadwraeth y safle a'i strwythur a'i swyddogaeth*[3]

[3] Rhoddir crynodeb o'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer pob math o safle Ewropeaidd (h.y. AGA, ACA, safle Ramsar) yn Adran 3 ynghyd â manylion am y nodweddion cymhwyso.

1.2.3 Yn hynny o beth:

- Uniondeb yw *'cydlyniad ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei ardal gyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y gyfres o cynefinoedd a/neu lefelau'r poblogaethau o rywogaethau y cafodd ei ddynodi o'u herwydd'* – ac felly mae hyn yn mynd y tu hwnt i effeithiau bychain;
- Caiff y goblygiadau i'r safle eu hasesu o ran ei amcanion cadwraeth (maint/cyflwr cynefinoedd, maint/statws poblogaethau – wedi'u nodi mewn Cynlluniau Rheoli Craidd, Cynlluniau Gwella Safle ac ati);
- Mae effaith yn arwyddocaol os byddai'n 'tanseilio amcanion cadwraeth' y safle (Arfarniad Waddenzee) – mae hyn yn cynrychioli procsi ar gyfer effaith ar uniondeb safle.

1.2.4 Mae yn bosibl cael effeithiau arwyddocaol, ond o dan Erthygl 6(4) (o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr EC), os yw datblygiad yn debygol o arwain at effaith andwyol ar uniondeb safle Ewropeaidd, mae'n rhaid sicrhau:

- Nad oes ateb arall ar gael;
- Bod rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig i barhau â'r cynllun neu'r prosiect; a
- Bod mesurau lliniaru digonol ar waith (ac erbyn i'r effaith gael ei hamlygu) er mwyn cynnal cydlyniad y rhwydwaith Natura 2000.

## 1.3 Camau HRA

*Tabl 5: Camau HRA*

| Cam | Disgrifiad | A fydd yn berthnasol i'r NDF? |
|---|---|---|
| Cam 1 | Sgrinio (/Cwmpasu) | Bydd<br>(i nodi a oes potensial i'r cynigion effeithio ar safleoedd Natura 2000) |
| Cam 2 | Asesu Priodol | Bron yn sicr (ar gyfer rhai cynigion)<br>(i archwilio effeithiau a gobeithio lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar uniondeb) |
| Cam 3 | Asesu Opsiynau Eraill | O bosib, er gobeithio ddim<br>(os nad yw'n bosibl dangos 'y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol' na fydd effeithiau andwyol ar uniondeb, yna byddai'n rhaid cymryd y ddau gam hyn) |
| Cam 4 | IROPI (am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig) a Mesurau Cydbwyso | |

1.3.1 Mae'r broses sgrinio gychwynnol yn cynnwys adolygiad o'r polisïau arfaethedig/safleoedd dynodedig (os yw'n berthnasol), a byddai'r rhai heb unrhyw lwybrau effaith at safleoedd dynodedig yn cael eu sgrinio allan. Mae Tabl 2 (isod) yn rhoi manylion y mathau o bolisïau y gellir eu sgrinio allan yn rhwydd. Pan fo'r math o bolisi sy'n cael ei ddatblygu yn gydnaws â'r mathau bras o bolisi sy'n cael eu nodi, gellir bod yn hyderus y gellir sgrinio'r polisi allan o ragor o HRA.

*Tabl 6: 'Mathau' o bolisi y gellir eu sgrinio allan yn nodweddiadol*

| Math Bras o Bolisi | Nodiadau |
|---|---|
| Datganiadau cyffredinol | Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod* na all cynlluniau neu gydrannau |

| Math Bras o Bolisi | Nodiadau |
|---|---|
| o bolisi / dyhead | cynlluniau sy'n ddatganiadau cyffredinol o bolisi neu ddyheadau gwleidyddol arwain at effeithiau arwyddocaol; er enghraifft, ymrwymiadau cyffredinol i ddatblygu cynaliadwy. |
| Cynllun cyffredinol / meini prawf canllawiau neu bolisïau na all arwain at neu ysgogi datblygiadau | Mae polisi cyffredinol wedi'i seilio ar feini prawf yn mynegi profion neu ddisgwyliadau y corff sy'n llunio'r cynllun wrth sôn am ystyried cynigion, neu'n ymwneud â meini prawf cynllunio neu ansoddol arall nad ydynt eu hunain yn arwain at ddatblygiadau (e.e. rheolaethau cynllunio); fodd bynnag, ni ddylid sgrinio allan polisïau â meini prawf sy'n ymwneud â chynigion neu ddynodiadau penodol. O ran Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP), mae polisïau 'diogelu' wedi'u cynnwys yn categori hwn. |
| Cynlluniau/prosiectau allanol | Cynlluniau a phrosiectau a gynigir gan gynlluniau eraill ac y cyfeirir atynt yn y cynllun fel rhai sydd wedi'u hasesu ar gyfer eu cyflawnder (er enghraifft, Morlyn Llanw Abertawe neu olew ar y môr a thrwyddedu nwy). |
| Polisïau diogelu amgylcheddol | Ni fydd polisïau sydd â'r bwriad o warchod yr amgylchedd naturiol neu adeiledig fel arfer yn arwain at effeithiau arwyddocaol nac andwyol (er bod angen eu haddasu'n aml pe dibynnir arnynt i warchod polisïau eraill yn ddigonol). |

* EC, 2000, Managing Natura 2000 sites: the provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC Ebrill 2000 yn 4.3.2).

## 1.4 Pam mae'r HRA yn berthnasol i'r NDF

1.4.1 Bydd yr NDF yn gosod fframwaith 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Gallai gynnwys cynlluniau gofodol, Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a pholisïau gan gynnwys y rhai a allai lywio datblygiad cyfleoedd twristiaeth, ynni adnewyddadwy, mwynau, tai a chyflogaeth, bob un ohonynt â'r potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000 o ganlyniad i ddatblygiadau.

**1.4.2** Mae'r adran ganlynol yn rhoi mwy o fanylion am y safleoedd Natura 2000 yng Nghymru a'r llwybrau effaith posibl rhwng cynnwys yr NDF a safleoedd Natura 2000 a allai arwain at effeithiau ar nodweddion dynodedig ac amcanion cadwraeth y safleoedd.

# 2 Nodau

2.1.1 Nodau synnwyr y fawd HRA yr NDF yw:

- Nodi egwyddorion a thybiaethau o ran gwahanol fathau o ddatblygiadau, a sut y mae tuedd iddynt ryngweithio â safleoedd Natura 2000, o roi darlun cyffredinol o'r effeithiau posibl y bydd angen eu hystyried wrth baratoi'r fframwaith datblygu.
- Crynhoi y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig, ac amcanion cadwraeth nodweddiadol, y safleoedd Natura 2000 niferus yng Nghymru mewn rhestr ymarferol o nodweddion cyffredinol a materion i'w hystyried yn fras.
- Nodi llwybrau effaith rhwng datblygiadau a safleoedd Natura 2000 a allai arwain at effeithiau arwyddocaol.
- Rhoi digon o ddealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd sylfaenol o ran safleoedd Natura 2000 er mwyn llywio datblygiad yr NDF yn ddefnyddiol, gan gynnwys ystyried y materion a'r opsiynau.

2.1.2 Mae'r diagram isod yn dangos sut y gall rhwydwaith Natura 2000 a pholisïau a chynlluniau sy'n gysylltiedig â'r NDF orgyffwrdd ar ffurf llwybrau effaith penodol. Bydd nodi a bod yn ymwybodol o'r llwybrau effaith hyn yn gynnar wrth ddatblygu'r NDF yn lleihau'r potensial i gynnwys polisïau/ prosiectau a allai arwain at effeithiau arwyddocaol ar y rhwydwaith Natura 2000 yn y cynllun terfynol.

*Diagram 1: Rhyngweithio rhwng safleoedd Natura 2000 a'r NDF*



# 3 Ystyriaethau Allweddol wrth Lywio HRA cynnar

## 3.1 Rhwydwaith Natura 2000 – Nodweddion Cymhwyso ac Amcanion Cadwraeth wedi'u crynhoi

3.1.1 Mae'r adran hon yn grwpio'r AGA, ACA a safleoedd Ramsar niferus ledled Cymru yn gategorïau bras, ac wedyn yn rhestru'r cynefinoedd a/neu rywogaethau cymwys nodweddiadol ym mhob categori. Dylai hyn alluogi tîm cynllunio Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar ddatblygu'r NDF i gael gwell ddealltwriaeth o'r mathau o safleoedd yng Nghymru, ac yn benodol y cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysig, y bydd angen eu hystyried. Ar gyfer pob math o safle Natura 2000 (h.y. ACA, AGA, safle Ramsar) rhoddir yr amcanion cadwraeth sy'n sylfaen i'r dynodiadau hefyd i gynorthwyo tîm cynllunio Llywodraeth Cymru wrth asesu pa effeithiau posibl fyddai'n fwyaf tebygol o arwain at ddirywio safle, ar sail lefelau bygythiad yr effeithiau ar yr amcanion cadwraeth. Mae'r amcanion cadwraeth wedi'u hadolygu, a'u crynhoi pan oedd hynny'n bosibl, er mwyn rhoi crynodeb o'r amcanion allweddol ar gyfer pob dynodiad. Mae enghreifftiau o'r mathau o amcanion safle unigol sy'n perthyn i'r amcan ehangach (mewn print trwm). Ni ddisgwylir y byddai angen manylion safleoedd unigol ar y cam hwn o'r NDF; fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys i ddarparu gwybodaeth gefndirol i helpu i ddeall sut mae'r amcanion cadwraeth yn cysylltu â'r dynodiad.

3.1.2 Dylid nodi bod yr AGA, ACA a safleoedd Ramsar sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac a ddangosir yn y ffigurau yn Atodiad B yn gywir ar Mawrth 2018. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw newidiadau dilynol i'r safleoedd a ddynodir trwy'r offeryn GIS wrth gynnal asesiadau pellach yn ystod pob cam o'r NDF.

### Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

*Tabl 7: Dynodiadau AGA bras a nodweddion cymhwyso cysylltiedig*

| AGA Morol | AGA Aberol | AGA Arfordirol | AGA Ucheldir | AGA Gwlyptir |
|---|---|---|---|---|
| Adar dŵr morol | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n gaeafu | Rhywogaethau adar sy'n bridio ar yr arfordir | Adar ysglyfaethus yr ucheldiroedd | Elyrch Bewick |
| | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n teithio | | | |
| | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n bridio | | | |

### Amcanion Cadwraeth AGA

3.1.3 Rhestrir isod grynodeb o'r amcanion cadwraeth sy'n berthnasol i safleoedd sydd wedi'u dynodi'n AGA (daw'r enghreifftiau o Gynlluniau Rheoli Craidd sy'n benodol i safleoedd):

- Mae **nifer yr holl rywogaethau adar AGA yn sefydlog neu'n cynyddu** (e.e. AGA Berwyn, cynnal 11 o barau o foda tinwyn neu eu cynyddu'n fwy na hyn). Gall hyn gynnwys cymryd y camau rheoli canlynol: rheolaeth gyfreithlon o rywogaethau ysglyfaethus, megis llwynogod a brain tyddyn, i leihau effaith ysglyfaethu ar adar sy'n nythu ar y tir (yn fwy penodol i AGA ucheldir); atal rhywogaethau adar sydd wedi'u gwarchod rhag cael eu herlyn gan bobl; ac atal tarfu ar adar sy'n nythu.
- Mae **nifer a dosbarthiad ysglyfaeth addas yn ddigonol ac yn briodol i gefnogi nifer yr holl rywogaethau adar AGA** (e.e. AGA Arfordir Castell Martin – bydd twmpathau morgrug melyn, ffynhonnell fwyd pwysig yn yr haf, i'w gweld mewn tyweirch arfordirol, ym mhob rhan o'r AGA â dwysedd o hyd at ryw 550 o dwmpathau morgrug yr hectar).

- **Cynnal cynefin digonol a phriodol i gefnogi poblogaeth yr AGA yn y tymor hir** (e.e. safleoedd bridio ar gyfer yr hebog tramor yn AGA Migneint-Arenig-Dduallt).
- **Mae poblogaeth bridio a chenhedlu (pan fo hynny'n briodol) yn sefydlog neu'n cynyddu** (e.e. Brain Coesgoch yn AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli).
- **Cynnal dosbarthiad rhywogaethau a chynefinoedd ar y safle** (e.e. dosbarthiad y boda tinwyn yn AGA Berwyn).
- **Lleihau'r tarfu ar yr holl adar AGA** pan fyddant yn eu hardaloedd bwydo, bridio, gaeafu a gorffwys a chaniatáu symud rhwng yr ardaloedd.

3.1.4 Rhoddir amcanion cadwraeth mwy penodol ar gyfer pob safle AGA yn y Cynlluniau Rheoli Craidd penodol i safle (safleoedd Cymru) a'r Amcanion Cadwraeth (safleoedd Lloegr) ar gyfer pob safle penodol, a rhoddir dolenni i'r dogfennau hyn yn Atodiad A.

## Safleoedd Ramsar

*Tabl 8: Dynodiadau safleoedd Ramsar bras a nodweddion cymhwyso cysylltiedig*

| Safleoedd Ramsar mewndirol | | Safleoedd Ramsar Aberol | |
|---|---|---|---|
| Planhigion a Chynefinoedd | Ffawna | Planhigion a Chynefinoedd | Ffawna |
| Planhigion a chynefinoedd gwlyptir | Creaduriaid di-asgwrn-cefn y tir (e.e. gloÿnnod byw, gwyfynnod) | Cynefinoedd aberol | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n nythu |
| | Creaduriaid di-asgwrn-cefn y dŵr (e.e. pryfed gwellt delltog) | | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n bridio |
| | Mamaliaid glannau afon (e.e. dyfrgwn, llygod y dŵr) | | Adar y dŵr ac adar hirgoes sy'n teithio |
| | Pysgod | | |
| | Adar y dŵr ac adar hirgoes | | |

## Amcanion Cadwraeth Safleoedd Ramsar

3.1.5 Rhoddir crynodeb o'r amcanion cadwraeth sy'n berthnasol i safleoedd Ramsar isod. Daw'r enghreifftiau o Gynlluniau Rheoli Craidd sy'n benodol i safleoedd:

- **Cynnal ansawdd a maint dŵr** (e.e. Safle Ramsar Corsydd Llŷn – mae cydrannau macroffytau, ffytoplancton, swplancton ac ysglyfaethu yr ecosystem yn gweithredu'n gytûn mewn amgylchedd dŵr clir).
- **Cynnal maint a chyflwr safle Ramsar** (e.e. safle Ramsar Llyn Idwal – ni ddylid colli rhagor o fawn y brig ar Yr Wyddfa; i ba raddau y dylid o leiaf cynnal cynefin ar Grib y Ddysgl a Garnedd Uchaf, ac ni ddylid colli unrhyw ansawdd.)
- **Cynnal ansawdd llystyfiant** – nodir cyfansoddiad gwahanol gymunedau o blanhigion ar gyfer pob safle, yn yr un modd â thechnegau rheoli megis pori (e.e. pori mignen bontio mewn safle Ramsar Cors Caron).

- **Sicrhau bod niferoedd, statws cadwraeth ac amrywiaeth y rhywogaethau dynodedig yn sefydlog neu'n cynyddu** a bod digon o gynefin i gynnal y poblogaethau yn y tymor hir (e.e. safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi – Mae'n rhaid i boblogaeth gaeafu Dyfi o'r ŵydd â brest wen gyflawni lefel o bwys cenedlaethol (h.y. 1% o'r boblogaeth genedlaethol (y DU)) yn flynyddol).
- **Cynnal absenoldeb rhywogaethau goresgynnol anfrodorol** (e.e. Sicrhau nad yw'r rhododendron i'w weld ar safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn).

3.1.6 Rhoddir amcanion cadwraeth mwy penodol ar gyfer pob safle Ramsar yn y Cynlluniau Rheoli Craidd (safleoedd Cymru) a'r Amcanion Cadwraeth (safleoedd Lloegr) ar gyfer pob safle penodol, ynghyd â dolenni i'r dogfennau hyn yn Atodiad A.

## Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

*Tabl 9: Dynodiadau ACA bras a nodweddion cymhwyso cysylltiedig (cynefinoedd a rhywogaethau)*

| ACA Glaswelltir/ Mawndir yr Iseldir | ACA Cors/ Mawn Gwlyb | ACA Glannau Afon/ Afonydd | ACA Llynnoedd | ACA Coetir | ACA Arfordirol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynefinoedd mawndir/ glaswelltir | Cynefinoedd cyrs a mawn gwlyb | Cynefinoedd afonol | Llynnoedd | Cynefinoedd coetir llydanddail | Cynefinoedd arfordirol (uwchlaw ac islaw'r pwynt llanw uchel) |
| Creaduriaid di-asgwrn-cefn y tir | Planhigion dŵr | Cragen las berlog dŵr croyw | Dyfrgwn | | Malwod y tir |
| | Coetir cors | Pysgod dŵr croyw mudol | | | Planhigion arfordirol |
| | Malwod y tir | Dyfrgwn | | | |
| | | Cimwch afon crafanc wen | | | |

| ACA Morol | ACA Aberol | ACA Ystlumod | ACA Ucheldir | ACA Madfallod Dŵr Cribog |
|---|---|---|---|---|
| Dolffiniaid trwynbwl | Cynefinoedd aberol | Ystlumod pedol mwyaf | Cynefinoedd cors a gwlyptir | Madfallod dŵr cribog |
| Morlo llwyd | Pysgod mudol | Ystlumod pedol lleiaf | Cynefin mawndir/ glaswelltir sych | |
| Llamhidydd yr harbwr | Dyfrgwn | Barbastél | | |

## Amcanion Cadwraeth ACA

3.1.7 Rhestrir isod grynodeb o’r amcanion cadwraeth sy’n berthnasol i safleoedd dynodedig yn ACA. Daw’r enghreifftiau o Gynlluniau Rheoli Craidd penodol i safleoedd.

3.1.8 Sicrhau y cynhelir neu yr adferir uniondeb y safle fel y bo’n briodol, a sicrhau bod y safle yn cyfrannu at gyflawni Statws Cadwraethol Ffafriol ei Nodweddion Cymhwyso, **trwy gynnal neu adfer**:

- **Maint a dosbarthiad cynefinoedd naturiol sy’n cymhwyso a chynefinoedd o rywogaethau sy’n cymhwyso** (e.e. yn ACA Corsydd Môn – mae corsydd calchaidd yn gorchuddio o leiaf 20% (93ha) o’r holl dir).
- **Strwythur a swyddogaeth (gan gynnwys rhywogaethau nodweddiadol) o gynefinoedd naturiol sy’n cymhwyso** (e.e. ar gyfer y clogwyni môr llawn llystyfiant yn ACA Pen y Gogarth, ymlediad planhigion dringo megis eiddew yr Iwerydd *Hedera helix* a bydd ymlediad triaglog coch anfrodorol yn cael ei atal).
- **Strwythur a swyddogaeth cynefinoedd o rywogaethau sy’n cymhwyso** (e.e. ar gyfer ACA Glaswelltiroedd Aberbargoed – bydd y safle yn cefnogi metaboblogaeth gynaliadwy o fritheg y gors yn ardal Aberbargoed; bydd angen o leiaf 50ha o gynefin addas i wneud hyn, er na fydd y cyfan o fewn yr ACA).
- Y **prosesau cynnal y mae’r cynefinoedd naturiol sy’n cymhwyso a’r cynefinoedd o rywogaethau sy’n cymhwyso yn dibynnu arnynt** (e.e. ACA Cwm Cadlan – Mae’r gors alcalïaidd wedi’i chynnal trwy arferion ffermio traddodiadol, a, heb drefn bori briodol, byddai’r glastir yn mynd yn drwchus ac yn troi’n brysgdir a choetir yn y pen draw; mae pori ysgafn gan wartheg ac ebolau yn bennaf rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd bob blwyddyn yn hanfodol felly i gynnal y cynefin.)
- Y **poblogaethau o rywogaethau sy’n cymhwyso** (e.e. ACA Mynydd Helygain – Bydd y safle yn parhau i gynnal o leiaf 200 o fadfallod dŵr cribog sy’n oedolion, a nodir drwy arolygon fflachlamp yn ystod y gwanwyn, mewn pyllau ac o’u hamgylch yn y clystyrau o byllau yn Wern y Gaer, Pen yr Henblas Rhes y Cae, Pant Quarry, Mount Villas, Mill Pond, Pant y Ffridd, Moel y Gaer, Moel y Crio, Plas Winta, Cwrs Golff Holywell).
- **Dosbarthiad rhywogaethau sy’n cymhwyso ar y safle** (e.e. ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir ar gyfer ystlumod pedol lleiaf – caiff cynefinoedd cyfagos eu rheoli’n briodol ac yn ddigon diogel i sicrhau nad yw maint nac amrywiaeth y boblogaeth yn debygol o ddirywio, ac na cheir unrhyw ostyngiad o ran maint ac ansawdd cynefin bridio, pori neu gaeafgysgu).

3.1.9 Rhoddir amcanion cadwraeth mwy penodol ar gyfer pob safle ACA yn y Cynlluniau Rheoli Craidd (safleoedd Cymru) a'r Amcanion Cadwraeth (safleoedd Lloegr) ar gyfer pob safle penodol, ynghyd â dolenni i’r dogfennau hyn yn Atodiad A. Mae amcanion o’r fath yn cynnwys gofynion sy’n llawer mwy penodol i’r safle (e.e. yn ymwneud â rhywogaethau planhigion penodol a niferoedd ac yn cynnwys manylion rhywogaethau nodweddiadol sy’n gysylltiedig â chynefin) a byddai angen asesiad manylach ar gamau diweddarach o HRA yr NDF, pan gynigir cynlluniau datblygu.

## 3.2 Cynigion yr NDF

3.2.1 Bydd yr NDF yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru. Gallai’r opsiynau, polisïau a mathau o ddatblygiad canlynol ffurfio rhan o’r NDF, a gall gweithredu’r rhain arwain at effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000. Nodwch nad yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr ar y cam hwn, yn amlwg, ond mae’n cynnwys y rhan fwyaf o feysydd eang sy’n debygol o gael eu cynnwys yn yr NDF.

### Cynlluniau gofodol

3.2.2 Bydd cynlluniau gofodol yn yr NDF yn darparu darlun cyffredinol o’r lleoliadau lle gallai datblygiadau/ gweithgareddau penodol gael eu lleoli. Nid yw cynlluniau o’r fath yn debygol o nodi manylion datblygiadau ar y lefel uchel hon; fodd bynnag, dylai fod yn bosibl nodi ardaloedd penodol lle na fyddai mathau penodol o ddatblygiadau yn addas (e.e. adeiladu fferm wynt o fewn/yn agos i AGA/safle Ramsar).

### Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)

3.2.3 Bydd angen eu lefel fanwl eu hunain o HRA ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol fel mater o bolisi Llywodraeth, felly byddai'r asesiad hwn yn cael ei ohirio i'r prosiect haen is.

### Seilwaith strategol (gan gynnwys telegyfathrebu, trafnidiaeth, gwyrdd ac ati)

3.2.4 Mae'n bosibl na fydd y lleoliadau penodol ar gyfer seilwaith strategol wedi'i nodi yn yr NDF; fodd bynnag, mae effeithiau tebygol o brosiectau o'r fath yn cynnwys darnio cynefinoedd, colli cynefinoedd ac effeithiau hydrolegol.

### Twristiaeth

3.2.5 Mae'n bosibl y bydd manylion gofodol am ardaloedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a datblygu atyniadau twristiaeth; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd manylion penodol yn hysbys ar y cam hwn. Yr effaith fwyaf tebygol ar gyfer datblygiadau o'r fath fyddai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a allai arwain at ddifrod i gynefinoedd neu darfu ar rywogaethau sy'n gysylltiedig â safleoedd Natura 2000, a chynnydd yn lefel y traffig yn arwain at gynnydd mewn llygredd.

### Tai

3.2.6 Mae'n bosibl y caiff rhai manylion gofodol am ardaloedd lle gellir lleoli datblygiadau tai newydd mawr, ond nid yw'n debygol y bydd safleoedd penodol neu ddatblygiadau llai yn hysbys ar y cam hwn. Mae'r effeithiau mwyaf tebygol o ddatblygiadau tai yn cynnwys: cynnydd yn y pwysau hamdden ar dir cyfagos yn sgil cerddwyr cŵn neu gerddwyr hamdden; cynnydd yn y risg o ysglyfaethu yn sgil y poblogaethau o gathod a gaiff eu cyflwyno; cynnydd yn lefel y traffig sy'n arwain at gynnydd mewn llygredd; a newidiadau i hydroleg o ganlyniad i gynnydd mewn wynebau anhydraidd.

### Consesiynau mwynau

3.2.7 Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o fanylion gofodol am leoliadau priodol ar gyfer consesiynau mwynau. Yr effeithiau mwyaf tebygol yn sgil datblygiadau o'r fath fyddai newidiadau posibl i hydroleg (dŵr wyneb a dŵr daear), sy'n effeithio ar safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o ddatblygiadau o'r fath.

### Ynni/ynni adnewyddadwy

3.2.8 Mae'n bosibl iawn y bydd yr NDF yn nodi parthau penodol yr ystyrir eu bod yn addas i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy. Bydd mathau gwahanol o ynni yn arwain at wahanol effeithiau – mae ffermydd gwynt yn aml yn effeithio ar rywogaethau symudol megis adar ac ystlumod (o ganlyniad i wrthdrawiadau) yn fwy nag ar gynefinoedd oherwydd olion traed bach y datblygiadau ar y cyfan. Gall ffermydd solar mawr arwain at effeithiau gwrthdrawiadau, ond nid i'r un graddau â thyrbinau gwynt. Gallai datblygiadau ynni'r llanw a hydro-electrig effeithio ar rywogaethau dŵr ac effeithio o bosibl ar brosesau hydroleg a chynefinoedd (er y byddai'r rhain yn debygol o gael eu cynnwys mewn gofynion DNS).

### Gwasanaethau rheoli adnoddau naturiol/ecosystemau

3.2.9 Er nad bwriad yr HRA ei hun yw cyflawni swyddogaeth rheoli adnoddau naturiol, gallai fod cyfleoedd i warchod a gwella safleoedd Natura 2000 ac felly gellid eu cynnwys yn yr NDF trwy bolisïau/ cynigion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau rheoli adnoddau naturiol ac ecosystemau, gan arwain at effeithiau buddiol i rwydwaith Natura 2000.

## 3.3 Llwybrau Effaith i'w hystyried

3.3.1 Mae gan ddatblygiadau o bob math y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000, a bydd tebygolrwydd yr effeithiau yn dibynnu ar bresenoldeb 'llwybrau effaith' rhwng safle'r datblygiad a'r safle Natura 2000 (mewn geiriau eraill, a oes modd y gallai fod effaith ffisegol ar gynefinoedd neu rywogaethau sy'n cymhwyso?).

3.3.2 Pan nodir llwybrau effaith, bydd angen asesu'r effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i ddatblygiad, er mwyn pennu arwyddocâd tebygol yr effeithiau hyn. Bydd angen asesu a fyddai'r effaith ar uniondeb y safle Natura 2000 (h.y. maint ac ansawdd y cynefin, neu statws poblogaeth y rhywogaeth) yn arwain at danseilio amcanion cadwraeth y safle.

3.3.3 Ceir cydnabyddiaeth na fydd datblygiad cynigion yn yr NDF o reidrwydd yn cynnwys elfennau gofodol, neu wedi'u mireinio'n ddigonol i nodi lleoliadau penodol, felly mae'n bosibl na fydd yn bosibl nodi effeithiau penodol ar safleoedd Natura 2000. Fodd bynnag, trwy ddeall y mathau o lwybrau effaith a allai ddigwydd, byddai tîm cynllunio Llywodraeth Cymru sy'n datblygu'r polisïau/cynigion yn gallu nodi cysylltiadau posibl yn gynnar ac felly osgoi unrhyw bolisïau arbennig o anaddas. Dylid ystyried y llwybrau effaith canlynol rhwng elfennau o'r NDF a'r safleoedd Natura 2000. Mae'r testun mewn print trwm yn nodi'r effaith bosibl gyffredinol a manylion am sut y gallali effaith o'r fath ddigwydd oddi tano [mae'r manylion mewn cromfachau sgwâr yn nodi ganllaw i'r pellter o safle Natura 2000 y gall cynnig NDF arwain at effaith arno][4]:

- **Cymryd tir o fewn safle Natura 2000 (h.y. colli cynefin yn uniongyrchol):**
  - A fyddai'r cynnig yn yr NDF yn cynnwys yr angen i adeiladu seilwaith parhaol o fewn cyffiniau safle Natura 2000 gan arwain at golli cynefin yn barhaol?

    [unrhyw gynigion a allai fod o fewn cyffiniau safle Natura 2000]
  - A fyddai angen cymryd tir o fewn safle Natura 2000 wrth adeiladu cynnig a fydd yn arwain at golli cynefin dros dro? (e.e. byddai gosod piblinellau yn arwain at golli cynefin yn ystod y broses adeiladu, ond gellid adfer cynefinoedd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau)?

    [unrhyw gynigion a allai fod o fewn cyffiniau safle Natura 2000]
  - Pan allai tir gael ei gymryd, a fyddai effaith ar unrhyw rywogaethau eraill yn gysylltiedig â'r safle dynodedig (e.e. gallai colli cynefin mewn AGA: effeithio ar gynefinoedd bridio adar; arwain at farwoldeb rhywogaethau wrth glirio safle)?

    [unrhyw gynigion a allai fod o fewn cyffiniau safle Natura 2000]
  - A fyddai'r cynnig yn arwain at golli cynefin yn barhaol neu dros dro o fewn ardal y tu allan i'r safle dynodedig, a allai fod yn gysylltiedig ag ef o ran swyddogaeth (h.y. tir y mae rhywogaethau y mae safle wedi'i ddynodi o'u herwydd yn ei ddefnyddio yn rheolaidd i bori/ nythu – yn arbennig o berthnasol i adar y dŵr sy'n gaeafu)?

    [byddai angen asesiad ar unrhyw gynigion a fyddai'n arwain at golli safleoedd maes glas o fewn 20km i AGA (neu safle Ramsar dynodedig oherwydd adar) i sicrhau tebygolrwydd cysylltiad rhwng y tir a safle Natura 2000 o ran swyddogaeth]
- **Dirywio cynefin o fewn safle Natura 2000 (h.y. colli cynefin yn anuniongyrchol):**
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd mewn allyriadau llwch yn ystod y cyfnod adeiladu neu unrhyw brosiectau cysylltiedig a allai effeithio ar gynefinoedd sensitif?

    [byddai angen cynnal asesiad o effeithiau llwch posibl ar unrhyw ddatblygiadau (neu lwybrau mynediad i gerbydau adeiladu) o fewn 50m i ffin safle Natura 2000 (IAMQ, 2016)]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd mewn llygredd cynefinoedd o fewn safleoedd Natura 2000 yn ystod y cyfnod adeiladu/gweithredu?

    [byddai angen chwilio am bresenoldeb unrhyw gysylltiadau hydrolegol â safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o gynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau (neu lwybrau mynediad i gerbydau adeiladu) o fewn 3km i ffin safle Natura 2000 lle gallai cynnydd yn y gwaddod mewn cyrsiau dŵr, halogi o orlif tanwydd, ac ati, effeithio ar y safle.]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r safle Natura 2000 a allai arwain at gynnydd at sathru ar gynefinoedd sensitif o ganlyniad i bwysau hamdden uwch (e.e. cerddwyr cŵn/hamdden sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai newydd)?

[4] Mae'r pellteroedd yn rhoi syniad yn unig, pan nodir effaith arwyddocaol bosibl, byddai asesiad trylwyr yn cael ei gynnal o lwybrau effaith a'r pellter y gellid teimlo'r effaith fesul achos yn ystod HRA llawn yr NDF.

[Nododd astudiaethau ar gyfer Morecambe Bay Partnership mai 3.45km yw'r pellter cyfartalog y bydd pobl yn ei deithio ar gyfer unrhyw daith diwrnod i safle dynodedig. Os gallai'r cynnig yn yr NDF arwain at ddatblygiadau tai mawr o fewn 3.5km i safle Natura 2000, bydd angen ystyried yr effaith bosibl hon].

- Gallai lleihau ansawdd cynefinoedd o ganlyniad i gynigion NDF arwain at farwoldeb rhywogaethau sy'n gysylltiedig â'r safle Natura 2000?

  [gallai dirywiad cynefinoedd arwain at golli cynefinoedd addas ar gyfer camau penodol o gylch bywyd rhywogaethau sy'n cymhwyso. Bydd pellter yr effaith hon yn amrywio yn dibynnu ar y rhywogaethau y cafodd safle ei ddynodi o'u herwydd (e.e. gallai dirywiad cynefin o fewn 500m i bwll bridio'r fadfall ddŵr gribog effeithio ar y rhywogaeth hon yn ystod y tymor pan nad yw'n bridio)]

- **Effeithiau o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr aer:**
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd mewn allyriadau nitrogen (ac amonia) (e.e. ffyrdd newydd, unedau da byw) a allai arwain at gynnydd mewn gwaddodi nitrogen o fewn safle Natura 2000 sy'n effeithio ar gynefinoedd?

    [gallai ffyrdd mawr newydd o fewn 500m i safle Natura 2000 arwain at effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaddod nitrogen a byddai angen asesu hyn, a dylid sgrinio i mewn unedau da byw o fewn 5km o safle Natura 2000 (CNC, 2017)].
  - A allai cynigion yr NDF arwain at ddatblygiadau diwydiannol newydd a allai arwain at allyriadau drwy'r aer?

    [gallai cynnydd mewn allyriadau effeithio ar safleoedd Natura 2000 o fewn 5-10km i ddatblygiad diwydiannol (i gyfeiriad y gwynt mynychaf) a fyddai'n arwain at waddod llygredd uwch, a dirywio cynefinoedd o bosibl yn y pen draw].
  - A allai cynigion yr NDF arwain at ddatblygiadau diwydiannol newydd a allai achosi glaw asid?

    [gallai cynnydd mewn allyriadau effeithio ar safleoedd Natura 2000 o fewn 20km i ddatblygiad diwydiannol (i gyfeiriad y gwynt mynychaf) a fyddai'n arwain at law asid a allai ddirywio cynefinoedd yn y pen draw].
- **Effeithiau ar faint neu ansawdd dŵr:**
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd mewn llygredd dŵr/gwaddod trwy gynyddu dŵr ffo (adeiladu/gweithrediad)?

    [byddai angen chwilio am bresenoldeb unrhyw gysylltiadau hydrolegol â safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o unrhyw gynigion sydd o fewn 3km i gwrs dŵr lle gallai llygredd effeithio arnynt, naill ai yn ystod y cam adeiladu neu weithredu. Dylid nodi unrhyw safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o ddatblygiad (ni waeth pa mor bell i lawr yr afon) ac asesu'r potensial i effeithiau ymledu i'r safleoedd hyn].
  - A allai cynigion yr NDF arwain at lygredd dŵr trwy ddamwain/digwyddiad diwydiannol?

    [Mae potensial i'r cynigion sydd angen mesurau atal llygredd y tu hwnt i'r mesurau safonol a ddefnyddir yn ystod y cam adeiladu fethu; felly mae angen ystyried yr effaith ar safle Natura 2000 i lawr yr afon o'r datblygiad, yn dibynnu ar yr agosatrwydd a'r holl gysylltiadau hydrolegol sy'n gysylltiedig â'r safle Natura 2000]
  - A allai cynigion y NDF dynnu dŵr i ffwrdd o'r cynefin cyfagos, neu ychwanegu dŵr ato, trwy echdynnu neu gynyddu gollyngiad dŵr?

    [O ble fydd y dŵr yn cael ei gyflenwi ar gyfer datblygiadau tai newydd? A allai echdynnu dŵr ar gyfer diwydiant neu waith draenio trefol newydd effeithio ar safleoedd Natura 2000? Mae angen ystyried cysylltiadau hydrolegol â'r safle Natura 2000 fesul achos]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at ryddhau dŵr wedi'i gynhesu i'r amgylchedd (e.e. o ganlyniad i ddefnyddio dŵr yn y broses oeri mewn gorsaf bŵer niwclear)?

    [Gallai bioamrywiaeth cynefinoedd Natura 2000 megis aberoedd a llynnoedd arwain at ddirywio o ganlyniad i'r broses hon. Mae angen ystyried cysylltiadau hydrolegol â'r safle Natura 2000 fesul achos.]

- A allai cynigion yr NDF gynyddu perygl llifogydd o ganlyniad i seilwaith caled/ newidiadau i hydroleg, neu gynefin llifogydd (e.e. o ganlyniad i adeiladu morglawdd llanw)?

  [Sut y bydd cynnig yr NDF yn effeithio ar hydroleg yr ardal leol? Mae angen ystyried cysylltiadau hydrolegol â'r safle Natura 2000 fesul achos]
- Marwoldeb rhywogaethau dŵr o ganlyniad i lygredd

  [byddai angen chwilio am bresenoldeb unrhyw gysylltiadau hydrolegol â safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o gynigion y gallai llygredd effeithio arnynt, yn ystod y cam adeiladu neu weithredu.]

- **Risg tarfu ar rywogaethau sy'n nodweddion cymhwyso safle Natura 2000:**
  - A allai cynigion yr NDF gynyddu'r tarfu o ran sŵn mewn safle Natura 2000, yn ystod y cam adeiladu a/neu weithredu?

    [Mae'r pellter y gallai effaith y tarfu yn sgil adeiladu neu weithredu deithio wedi'i nodi ar gyfer nifer o rywogaethau, ac os ystyrir bod effaith sŵn yn debygol, dylid arolygu'r manylion hyn ar gyfer y nodweddion cymhwyso penodol. Gall gweithgarwch hyd at 1km i ffwrdd effeithio ar rywogaethau mwy sensitif (e.e. boda tinwyn a'r hebog tramor (nodweddion cymhwyso AGA Berwyn)) (er bod o fewn 750m yn fwy nodweddiadol) (Ruddock and Whitefield, 2007). Mae tarfu yn fwy niweidiol yn ystod tymor bridio ar y cyfan, felly dylid amseru gwaith yn ogystal â lleoliad. Felly, dylid sgrinio i mewn unrhyw gynigion o fewn 1km i AGA neu safle Ramsar â rhywogaethau adar yn nodwedd gymhwyso].
  - A allai cynigion yr NDF gynyddu tarfu hamdden ar safleoedd Natura 2000 a/neu ar dir sydd wedi'i gysylltu o ran swyddogaeth â'r safleoedd hyn?

    [Nododd astudiaethau ar gyfer Morecambe Bay Partnership (Liley *et al*., 2015) mai 3.45km yw'r pellter cyfartalog y bydd pobl yn ei deithio ar gyfer unrhyw daith diwrnod i safle dynodedig. Os gallai'r cynnig yn yr NDF arwain at ddatblygiadau tai mawr o fewn 3.5km i safle Natura 2000, bydd angen ystyried yr effaith bosibl hon]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at darfu gweledol yn ystod y cam adeiladu a/neu weithredu?

    [Yn debygol o gael effaith dros bellteroedd llai nag ar gyfer tarfu o ran sŵn, a ddisgrifir uchod. Gellir ei lliniaru trwy ddefnyddio sgrinio o amgylch safleoedd adeiladu.]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at darfu i/dadleoli rhywogaethau sy'n gysylltiedig â safle Natura 2000 wrth ddefnyddio cynefinoedd y tu allan i'r safle dynodedig?

    [Mae angen ystyried cynefinoedd addas o fewn 20km i AGA a safle Ramsar (â nodweddion adar).]
- **Risg marwoldeb (i rywogaethau symudol):**
  - A allai cynigion yr NDF gynyddu nifer y damweiniau traffig ffordd i rywogaethau dynodedig?

    [Gallai presenoldeb ffyrdd newydd o fewn 5km i ACA sydd wedi'i dynodi oherwydd ei bod yn cynnal clwydfannau ystlumod neu AGA/safleoedd Ramsar ar gyfer adar arwain at gynnydd mewn marwoldeb o ganlyniad i wrthdrawiadau. (Highways Agency, 2001)]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at gynnydd mewn marwoldeb rhywogaethau symudol o ganlyniad i wrthdrawiadau â thyrbinau gwynt/ceblau pŵer ac ati?

    [Byddai angen asesiad ar ddatblygiadau ffermydd gwynt newydd o fewn 20km i AGA neu safle Ramsar sy'n cynnal rhywogaethau adar sy'n cymhwyso neu o fewn 10km i ACA sydd wedi'i dynodi oherwydd ystlumod. Gallai ceblau pŵer uwchben effeithio ar adar ac ystlumod hefyd.]
  - A allai cynigion yr NDF greu sefyllfa lle gallai rhywogaethau dynodedig gael eu dal a marw (e.e. madfallod dŵr cribog yn syrthio i draeniau ac yn methu â dianc)?

    [Mae madfallod dŵr cribog i'w gweld mewn tir addas rhyw 500m o byllau bridio (English Nature, 2001), gallai unrhyw gynigion a allai effeithio ar gynefinoedd hyd at 500m o ACA sydd wedi'i dynodi oherwydd madfallod dŵr cribog arwain at effaith.]
  - A allai cynigion yr NDF arwain at risg gynyddol o ysglyfaethu rhywogaethau dynodedig?

[Gallai datblygiadau tai newydd o fewn 1km i AGA neu safle Ramsar sydd wedi'i ddynodi oherwydd rhywogaethau adar, arwain at effeithiau sy'n gysylltiedig ag ysglyfaethu gan gathod.]

- **Rhannu a darnio a chreu rhwystrau i symud:**
  - A allai cynigion yr NDF arwain at rannu cynefinoedd sydd eu hangen ar wahanol gamau bywyd rhywogaethau cymhwyso safle Natura 2000 (e.e. rhwng y cynefin pori ar y tir a'r pyllau bridio ar gyfer madfallod dŵr cribog, neu safleoedd nythu a phori adar hirgoes mewn AGA)?

    [Gallai prosiectau seilwaith llinol, yn arbennig, arwain at ddarnio cynefinoedd (Highways Agency, 2001), atal anifeiliaid rhag cael mynediad at adnoddau pwysig, dylid sgrinio unrhyw gynlluniau llinol am yr effaith bosibl hon.]

# 4 Synnwyr y Fawd

4.1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi nodweddion allweddol y safleoedd dynodedig yng Nghymru ac yn nodi sut y gall y polisïau/strategaethau/cynigion a nodir yn yr NDF sy'n cael ei ddatblygu effeithio arnynt. Ar sail yr wybodaeth a roddir uchod, mae'r rheolau synnwyr y fawd wedi'u llunio i ddarparu rhestr o gwestiynau allweddol y mae angen eu hystyried trwy gydol y broses o ddatblygu opsiynau'r fframwaith.

4.1.2 Y nod yw sicrhau bod gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u hystyried yn gynnar yn y broses, gan annog tîm yr NDF i fod yn ymwybodol ohonynt, ac, yn ddelfrydol, osgoi effeithiau cyn treulio amser yn datblygu cynigion a allai fod yn niweidiol. Bydd hyn yn osgoi'r angen i ddiwygio neu ddileu cynigion o'r fframwaith nes ymlaen.

### Rheol 1: Beth yw'r polisi/strategaeth/cynnig yn yr NDF sy'n cael ei asesu? A allai arwain at ddatblygiad ffisegol/ darparu fframwaith i gynnig prosiectau datblygu yn y dyfodol?

Os na allai, gellir sgrinio'r cynnig allan. Os gallai, mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r potensial y gall y polisi/strategaeth/cynnig effeithio ar y rhwydwaith Natura 2000. Mae'n debygol na fydd modd nodi effeithiau posibl ar y cam hwn, pan fyddai angen sicrhau bod y polisi/strategaeth/cynnig wedi'i eirio'n briodol i sicrhau bod cynlluniau haen is yn y dyfodol yn ystyried effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 cyn rhoi caniatâd am ddatblygiadau.

### Rheol 2: Beth yw'r safleoedd dynodedig y gallai'r polisi/strategaeth/cynnig effeithio arnynt? Gallai hyn gynnwys safleoedd o fewn neu ger y cynnig/ polisi/strategaeth.

Pan fo'r polisi/strategaeth/cynnig yn cynnwys elfen ofodol, gall fod yn bosibl nodi pa safleoedd y gellid effeithio arnynt. Yn nodweddiadol, byddai ymarfer chwilio yn cael ei gynnal am safleoedd Natura 2000 o fewn 20km i ddatblygiad arfaethedig a byddai disgwyl i hyn nodi mwyafrif y safleoedd y gellid effeithio arnynt; fodd bynnag, os oes posibilrwydd y gallai'r effeithiau ymestyn dros bellter mwy, ar sail egwyddorion ecolegol cadarn (e.e. gallai cynnydd mewn echdyniad dŵr o gronfa ddŵr sawl cilometr i ffwrdd effeithio ar gwrs dŵr a all fod yn ACA ddynodedig), dylid ystyried hyn ac ymestyn yr ymarfer chwilio fel y bo'n briodol. Pan fo polisi/cynnig ar raddfa genedlaethol, gall effeithio ar bob safle Natura 2000 ar y lefel bresennol, a bydd angen cynnal yr HRA hwnnw o'r polisi haen is sy'n darparu'r manylion gofodol, er mwyn cynnig asesiad ystyrlon a nodi mesurau lliniaru, pan fo angen hynny.

Os nad yw lleoliadau penodol datblygiadau yn hysbys ar y cam, dylid nodi'r llwybrau effaith posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i weithredu'r polisi (gweler Rheol 5), a byddai unrhyw safleoedd Natura 2000 sy'n agored i'r llwybrau effaith a nodir yn cael eu sgrinio i mewn, wedyn gellir sgrinio allan unrhyw safleoedd Natura 2000 na fyddai'r llwybrau effaith yn effeithio arnynt.

### Rheol 3: Beth yw'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cymhwyso y gellid effeithio arnynt (fel y nodir yn y ddogfen hon)?

Pan fydd unrhyw safleoedd Natura 2000 y gallai'r polisi/strategaeth/cynnig effeithio arnynt wedi'u nodi, dylid casglu manylion y cynefinoedd a rhywogaethau cymhwyso yn y safleoedd hynny. Bydd gwahanol effeithiau yn effeithio ar nodweddion cymhwyso mewn gwahanol ffyrdd, felly nid yw presenoldeb llwybr effaith o reidrwydd yn arwain at effaith andwyol ar y nodwedd gymhwyso.

### Rheol 4: Beth yw amcanion cadwraeth y safleoedd perthnasol (fel y nodir yn y ddogfen hon)?

Mae angen ystyried yr effeithiau posibl ar safle Natura 2000 ynghyd ag amcanion cadwraeth y safle hwnnw. Defnyddiwch y canllawiau yn Adran 3.1 uchod (ynglŷn â'r amcanion cadwraeth bras ar gyfer ACA, AGA a Safleoedd Ramsar) yn gyntaf, ac, os yw'n briodol, ymchwiliwch i amcanion cadwraeth

penodol safleoedd unigol (mae dolenni i'r Cynlluniau Rheoli Craidd neu'r Amcanion Cadwraeth (pan fyddant ar gael) yn Atodiad A).

### Rheol 5: Beth ydych chi'n ystyried yw'r llwybrau effaith tebygol rhwng y polisi/strategaeth/cynnig a'r safleoedd perthnasol?

Bydd gwahanol effeithiau'n effeithio ar safleoedd mewn gwahanol ffyrdd dros wahanol bellteroedd. Mae'n bwysig deall sut y gallai polisi/strategaeth/cynnig effeithio ar safle a'i amcanion cadwraeth mor gynnar â phosibl. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i ymgorffori mesurau osgoi/lliniaru priodol a sicrhau bod opsiynau eraill wedi'u hystyried ar gyfer cynnig, ac y caiff yr opsiwn lleiaf niweidiol ei ddwyn ymlaen, pan fo hynny'n bosibl. Yn amlwg, bydd yn bwysig, trwy gynllun y polisi/strategaeth/cynnig, bod y mesurau osgoi yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl hynny a allai danseilio unrhyw amcanion cadwraeth safle, yn hytrach na'r rhai a fyddai'n arwain at lai o effaith.

### Rheol 6: Ceisio ymgorffori yn y polisi/strategaeth/cynnig unrhyw fesurau a fyddai'n osgoi neu'n lliniaru effaith bosibl

Trwy ddilyn Rheolau 1 i 5, bydd dealltwriaeth wedi'i datblygu o oblygiadau y gallai polisi/strategaeth/ cynnig eu cael ar unrhyw safle Natura 2000 a'u cynefinoedd a'u rhywogaethau cymhwyso. Pryd bynnag fo modd osgoi effeithiau posibl ar y safleoedd hyn, trwy addasu'r polisi/strategaeth/cynnig, dylid gwneud y newidiadau hyn cyn gynted ag y bo modd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod unrhyw elfennau gofodol wedi'u cynllunio i osgoi safleoedd Natura 2000 (o bellter digonol), neu gynnwys geiriad priodol i sicrhau bod angen HRA ar unrhyw ddatblygiad a gaiff ei gynnig o dan y polisi/strategaeth/cynnig, cyn rhoi caniatâd am y datblygiad.

# 5 Cyfeiriadau

DTA for CCW (2012). *Draft Guidance for Plan Making Authorities in Wales. The Appraisal of Plans Under the Habitats Directive.*

DTA Publications Limited (2006) *The Habitats Regulations Assessment Handbook*.

EC, 2000, *Managing Natura 2000 sites: the provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC Ebrill* 2000: http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/provision_of_art6_en.pdf a diweddariad 2007/2012 ar 6(4) http://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/management/docs/art6/new_guidance_art6_4_en.pdf

English Nature (2001). *Great Crested Newt Mitigation Guidelines.*

Highways Agency (2001). Design Manual for Roads and Bridges, Cyfrol 10: http://www.standardsforhighways.co.uk/ha/standards/dmrb/vol10/index.htm

IAQM (2016) *Guidance on the assessment of dust from demolition and construction*, Fersiwn 1.1

Liley, D., Underhill-Day, J., Panter, C., Marsh, P. & Roberts, J. (2015). *Morecambe Bay Bird Disturbance and Access Management Report*. Adroddiad nas cyhoeddwyd gan Footprint Ecology for the Morecambe Bay Partnership

Cyfoeth Naturiol Cymru, 2017. *Assessment of ammonia and nitrogen impacts from livestock units (2017*). Operational Guidance Note 41. Cyfoeth Naturiol Cymru

Ruddock, M., a Whitefield, D.P., (2007) *A Review of Disturbance Distances in Selected Bird Species.* Adroddiad nas Cyhoeddwyd gan Natural Research Ltd. Caeredin: Scottish Natural Heritage.

Llywodraeth Cymru **Polisi Cynllunio Cymru:**
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

Llywodraeth Cymru **TAN 5 Wales:**
http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/100730tan5en.pdf

Canllawiau PINS **ar HRA prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol**
http://infrastructure.planningportal.gov.uk/wp-content/uploads/2012/10/Advice-note-10-HRA.pdf

# ATODIAD A – Categoreiddio'r holl safleoedd dynodedig yng Nghymru ac o fewn 20km i'r ffin

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i'r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Bae Caerfyrddin/ Carmarthen Bay | AGA | AGA Morol | | Dolen |
| Berwyn | AGA | AGA Ucheldir | | Dolen |
| Cilfach Tywyn / Burry Inlet | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Arfordir Castell Martin / Castlemartin Coast | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Craig yr Aderyn / Bird's Rock | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Aber Dyfi / Dyfi Estuary | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Elenydd - Mallaen | AGA | AGA Ucheldir | | Dolen |
| Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli/ Aberdaron Coast and Bardsey Island | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Glannau Ynys Gybi/ Holy Island Coast | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Ynys Gwales / Grassholm | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Bae Lerpwl / Liverpool Bay | AGA | AGA Morol | | Dolen |
| Migneint-Arenig-Dduallt | AGA | AGA Ucheldir | | Dolen |
| Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi / Ramsey and St David`s Peninsula Coast | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Severn Estuary | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Ynys Sgogwm, Ynys Sgomer a Moroedd Sir Benfro / Skokholm and Skomer and the seas off Pembrokeshire | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Traeth Lafan, Bae Conwy / Lavan Sands, Conway Bay | AGA | AGA Aberol | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i’r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Morwenoliaid Ynys Môn / Anglesey Terns | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Ynys Seiriol / Puffin Island | AGA | AGA Arfordirol | | Dolen |
| Mersey Narrows and North Wirral Foreshore | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Mersey Estuary | AGA | AGA Aberol | | Dolen |
| Walmore Common | AGA | AGA Gwlyptir | | Dolen |
| Cilfach Tywyn / Burry Inlet | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Cors Caron | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Cors Fochno a Dyfi | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Corsydd Môn a Llŷn/ Anglesey and Llŷn Fens | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Cors Crymlyn / Crymlyn Bog | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Llyn Idwal | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Llyn Tegid | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Midland Meres and Mosses Phase 2 | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Severn Estuary | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Mersey Narrows and North Wirral Foreshore | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Mersey Estuary | Safle Ramsar | Ramsar Aberol | | Dolen |
| Walmore Common | Safle Ramsar | Ramsar Mewndirol | | Dolen |
| Glaswelltiroedd Aberbargoed / Aberbargoed Grasslands | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd | ACA | Cors | Glannau afon | Dolen |
| Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn | ACA | Glannau afon | Llyn | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i'r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Afon Teifi/ River Teifi | ACA | Glannau afon | Llyn | Dolen |
| Afon Tywi/ River Tywi | ACA | Glannau afon | | Dolen |
| Afonydd Cleddau/ Cleddau Rivers | ACA | Glannau afon | Cors, Coetir | Dolen |
| Coedwigoedd Dyffryn Alun / Alyn Valley Woods | ACA | Coetir | Glaswelltir | Dolen |
| Bae Cemlyn/ Cemlyn Bay | ACA | Arfordirol | | Dolen |
| Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd/ Berwyn and South Clwyd Mountains | ACA | Ucheldir | Cors | Dolen |
| Coetir Melin Ifan Ddu / Blackmill Woodlands | ACA | Coetir | | Dolen |
| Blaen Cynon | ACA | Glaswelltir/mawndir | Cors | Dolen |
| Bannau Brycheiniog / Brecon Beacons | ACA | Ucheldir | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Cadair Idris | ACA | Ucheldir | Llyn, Cors, Mawn | Dolen |
| Caeau Mynydd Mawr | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Cardiff Beech Woods | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Bae Ceredigion / Cardigan Bay | ACA | Glaswelltir/mawndir | Morol | Dolen |
| Bae Caerfyrddin ac Aberoedd / Carmarthen Bay and Estuaries | ACA | Morol | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Cernydd Carmel | ACA | Glaswelltir/mawndir | Cors | Dolen |
| Clogwyni Llŷn/ Seacliffs of Llŷn | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Coed Cwm Einion | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Coed y Cerrig | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Coedwigoedd Dyffryn Elwy/ Elwy Valley Woods | ACA | Glaswelltir/mawndir | Ucheldir | Dolen |
| Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn/ Creuddyn Peninsula Woods | ACA | Glaswelltir/mawndir | Ucheldir | Dolen |
| Coedydd a Cheunant Rheidol/ Rheidol Woods and Gorge | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i’r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Coedydd Aber | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion/ Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Coedydd Llawr-y-glyn | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Coedydd Nedd a Mellte | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Coetiroedd Cwm Elan/ Elan Valley Woodlands | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Cors Caron | ACA | Glaswelltir/mawndir | Glannau afon | Dolen |
| Cors Fochno | ACA | Cors | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Corsydd Eifionydd | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Corsydd Llŷn/ Llŷn Fens | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Corsydd Môn/ Anglesey Fens | ACA | Glaswelltir/mawndir | Llyn | Dolen |
| Cors Crymlyn / Crymlyn Bog | ACA | Llyn | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Cwm Cadlan | ACA | Glaswelltir/mawndir | Llyn | Dolen |
| Coedydd Cwm Clydach / Cwm Clydach Woodlands | ACA | Coetir | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Cwm Doethie - Mynydd Mallaen | ACA | Coetir | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | ACA | Aberol | Arfordirol | Dolen |
| Safleoedd Madfallod y Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle / Deeside and Buckley Newt Sites | ACA | Glaswelltir/mawndir | Madfallod dŵr cribog | Dolen |
| Drostre Bank | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Bae Dwnrhefn / Dunraven Bay | ACA | Arfordirol | | Dolen |
| Elenydd | ACA | Cors | Glaswelltir/mawndir, Llyn | Dolen |
| Eryri/ Snowdonia | ACA | Ucheldir | Cors, Llyn | Dolen |
| Fenn`s, Whixall, Bettisfield, Wem and Cadney Mosses | ACA | Cors | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i'r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Glannau Môn: Cors heli / Anglesey Coast: Saltmarsh | ACA | Aberol | | Dolen |
| Glannau Ynys Gybi/ Holy Island Coast | ACA | Arfordirol | Glaswelltir/mawndir, Cors | Dolen |
| Glan-traeth | ACA | Madfallod dŵr cribog | | Dolen |
| Glaswelltiroedd Cefn Cribwr/ Cefn Cribwr Grasslands | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Glynllifon | ACA | Ystlumod | | Dolen |
| Coedydd Ynn Gŵyr / Gower Ash Woods | ACA | Coetir | | Dolen |
| Tiroedd Comin Gŵyr / Gower Commons | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Granllyn | ACA | Madfallod dŵr cribog | | Dolen |
| Pen y Gogarth / Great Orme's Head | ACA | Glaswelltir/mawndir | Arfordirol | Dolen |
| Grogwynion | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Gweunydd Blaencleddau | ACA | Cors | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Mynydd Helygain / Halkyn Mountain/ | ACA | Glaswelltir/mawndir | Madfallod dŵr cribog | Dolen |
| Safleoedd Madfallod y Dŵr Johnstown / Johnstown Newt Sites | ACA | Madfallod dŵr cribog | | Dolen |
| Cynffig / Kenfig | ACA | Arfordirol | Llyn | Dolen |
| Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru / Limestone Coast of South West Wales | ACA | Arfordirol | Glaswelltir/mawndir, ystlumod | Dolen |
| Llangorse Lake/ Llyn Syfaddan | ACA | Llyn | | Dolen |
| Llwyn | ACA | Coetir | | Dolen |
| Llyn Dinam | ACA | Llyn | | Dolen |
| Migneint-Arenig-Dduallt | ACA | Cors | Glaswelltir/mawndir, Llyn | Dolen |
| Camlas Trefaldwyn / Montgomery Canal | ACA | Glannau afon | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i'r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Morfa Harlech a Morfa Dyffryn | ACA | Arfordirol | | Dolen |
| Mwyngloddiau Fforest Gwydir/ Gwydyr Forest Mines | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Mynydd Epynt | ACA | Ucheldir | | Dolen |
| Coedydd Gogledd Sir Benfro / North Pembrokeshire Woodlands | ACA | Coetir | Ystlumod | Dolen |
| Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro / North West Pembrokeshire Commons | ACA | Glaswelltir/mawndir | Cors | Dolen |
| Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston / Pembrokeshire Bat Sites and Bosherston Lakes/ | ACA | Llyn | Ystlumod | Dolen |
| Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine | ACA | Aberol | Arfordirol/Morol | Dolen |
| Pen Llŷn a'r Sarnau/ Llŷn Peninsula and the Sarnau | ACA | Aberol | Arfordirol/Morol | Dolen |
| Preseli | ACA | Cors | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Rhinog | ACA | Coetir | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Rhos Goch | ACA | Cors | Glaswelltir | Dolen |
| Rhos Llawr-cwrt | ACA | Glaswelltir/mawndir | Cors | Dolen |
| Rhos Talglas | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid / River Dee and Bala Lake | ACA | Glannau afon | | Dolen |
| Afon Wysg / River Usk | ACA | Glannau afon | | Dolen |
| Afon Gwy / River Wye | ACA | Glannau afon | Cors | Dolen |
| Môr Hafren / Severn Estuary | ACA | Aberol | Arfordirol | Dolen |
| Tyddewi / St David's | ACA | Arfordirol | Glaswelltir/mawndir | Dolen |
| Coetir Pen-y-fâl / Sugar Loaf Woodlands | ACA | Coetir | | Dolen |
| Safleoedd Ystlumod Tanat ac | ACA | Ystlumod | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i'r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Efyrnwy / Tanat and Vyrnwy Bat Sites | | | | |
| Safleoedd Ystlumod Wysg / Usk Bat Sites | ACA | Ystlumod | Glaswelltir/mawndir, Cyrs, Ucheldir | Dolen |
| Coetiroedd Dyffryn Gwy / Wye Valley Woodlands | ACA | Coetir | Ystlumod | Dolen |
| Y Fenai a Bae Conwy/ Menai Strait and Conwy Bay | ACA | Arfordirol | | Dolen |
| Y Twyni o Abermenai i Aberffraw/ Abermenai to Aberffraw Dunes | ACA | Arfordirol | | Dolen |
| Yerbeston Tops | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Dynesfeydd Môr Hafren / Bristol Channel Approaches | ACA | Morol | | Dolen |
| Gorllewin Cymru Forol / West Wales Marine | ACA | Morol | | Dolen |
| Gogledd Ynys Môn Forol / North Anglesey Marine | ACA | Morol | | Dolen |
| Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire | ACA | Morol | | Dolen |
| Gogledd Bae Ceredigion / Northern Cardigan Bay | ACA | Morol | | Dolen |
| Morwenoliaid Ynys Môn / Anglesey Terns | ACA | Morol | | Dolen |
| The Stiperstones and The Hollies | ACA | Glaswelltir/mawndir | Coetir | Dolen |
| Oak Mere | ACA | Llyn | | Dolen |
| West Midland Mosses | ACA | Llyn | | Dolen |
| Brown Moss | ACA | Glannau afon | | Dolen |
| River Clun SAC | ACA | Glannau afon | | Dolen |
| Downton Gorge | ACA | Coetir | | Dolen |
| Avon Gorge Woodlands | ACA | Coetir | | Dolen |
| Mendip Limestone Grasslands | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |

| Safle dynodedig<br>â dolen i ffurflen ddata safonol Natura 2000 | Dynodiad | Categori Bras Sylfaenol Natura 2000 | Categori/categorïau Eilaidd Natura 2000 | Dolen i’r Cynllun Rheoli Craidd/ amcanion cadwraeth (safleoedd Lloegr) |
|---|---|---|---|---|
| Exmoor Heaths | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |
| North Somerset & Mendip Bats | ACA | Glaswelltir/mawndir | | Dolen |

# ATODIAD B – Ffigurau

Ffigur 1: Darlun cyffredinol o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru

Ffigur 2 (Taflenni 1-8): Darlun manwl o safleoedd Natura 2000 a byffrau safle




Allwedd:

**Dynodiad**

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dyluniwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 27/06/17 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**PROSIECT:**

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Safle

**CYMRU**

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

**Swyddfa gofrestredig:**
**Arcadis House**
**34 York Way,**
**Llundain**
**N1 9AB**

**Swyddfa Cydlynu:**
**Llawr 5**
**4012 Faraday Street**
**Warrington**
**WA3 6GA**

**www.arcadis.com**

TEITL:

Ffigur 1:
Trosolwg o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:900,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | UA009148 |

Disgrifiad o Addasrwydd:
Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 001-UA009148-UE31D-005

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol    Dyddiad argraffu 04-19-18 12:31:34    C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\001-UA009148-UE31D-01-Overview Designated Nature Conservation Sites.mxd







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dyluniwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

PROSIECT:

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Safle

CYMRU

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

Swyddfa gofrestredig:
Arcadis House
34 York Way,
Llundain
N1 9AB

Swyddfa Cydlynu:
Llawr 5
4012 Faraday Street
Warrington
WA3 6GA

www.arcadis.com

TEITL:

Ffigur 2:
Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
Tudalen 1 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:
Cyhoeddwyd er gwybodaeth

| Rhif Lluniad: | Adolygiad: |
|---|---|
| 002-10012279-UE31D- | 01 |

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol   Dyddiad argraffu 04-20-18 09:46:33   C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |
| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dylunwiwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**PROSIECT:**

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Safle

**CYMRU**

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

**Swyddfa gofrestredig:**
**Arcadis House**
**34 York Way,**
**Llundain**
**N1 9AB**

**Swyddfa Cydlynu:**
**Llawr 5**
**4012 Faraday Street**
**Warrington**
**WA3 6GA**

**www.arcadis.com**

TEITL:

Ffigur 2:
Golwg manwl o safleoedd Natura 2000
gyda byffrau safleoedd
Tudalen 2 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:

Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol    Dyddiad argraffu 04-20-18 09:46:41    C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |
| Adoly-giad | Dyddiad | Disgrifiad | Dylun-iwyd gan | Gwirio | Cymer-adwyo |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PROSIECT:

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Safle

CYMRU

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

Swyddfa gofrestredig:
Arcadis House
34 York Way,
Llundain
N1 9AB

Swyddfa Cydlynu:
Llawr 5
4012 Faraday Street
Warrington
WA3 6GA

www.arcadis.com

TEITL:

Ffigur 2:
Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
Tudalen 3 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:
Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol    Dyddiad argraffu 04-20-18 09:46:49    C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd




50mm ar y gwreiddiol

Dyddiad argraffu 04-20-18 09:46:58

C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd




Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |
| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dylunwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PROSIECT:

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Safle

CYMRU

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

Swyddfa gofrestredig:
Arcadis House
34 York Way,
Llundain
N1 9AB

Swyddfa Cydlynu:
Llawr 5
4012 Faraday Street
Warrington
WA3 6GA

www.arcadis.com

TEITL:

# Ffigur 2: Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd Tudalen 4 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:
Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |
| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dylun-iwyd gan | Gwirio | Cymer-adwyo |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

**PROSIECT:**

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Safle

**CYMRU**

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets


**Swyddfa gofrestredig:**
**Arcadis House**
**34 York Way,**
**Llundain**
**N1 9AB**

**Swyddfa Cydlynu:**
**Llawr 5**
**4012 Faraday Street**
**Warrington**
**WA3 6GA**

**www.arcadis.com**


TEITL:

## Ffigur 2:
## Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
## Tudalen 5 o 8

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd | | |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd | | |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd | | |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD | | |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS | | |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 | | |

Disgrifiad o Addasrwydd:

Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |
| Adoly-giad | Dyddiad | Disgrifiad | Dylun-iwyd gan | Gwirio | Cymer-adwyo |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

PROSIECT:

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Safle

CYMRU

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

Swyddfa gofrestredig:
Arcadis House
34 York Way,
Llundain
N1 9AB

Swyddfa Cydlynu:
Llawr 5
4012 Faraday Street
Warrington
WA3 6GA

www.arcadis.com

TEITL:

Ffigur 2:
Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
Tudalen 6 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:
Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-
Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol   Dyddiad argraffu 04-20-18 09:47:12   C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd







Allwedd:

- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dyluniwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |

Cleient

LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**PROSIECT:**

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

Safle

**CYMRU**

Cleient

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

**Swyddfa gofrestredig:**
Arcadis House
34 York Way,
Llundain
N1 9AB

**Swyddfa Cydlynu:**
Llawr 5
4012 Faraday Street
Warrington
WA3 6GA

www.arcadis.com

TEITL:

# Ffigur 2:
# Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
# Tudalen 7 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd:

Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D-

Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol    Dyddiad argraffu    04-20-18 09:47:18    C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd







Allwedd:
- Safle Ramsar
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Dyluniwyd gan | Gwirio | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 23/03/18 | Argraffiad cyntaf | RM | JW | DH |

**Cleient** LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**PROSIECT:**
FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL

**Safle**
CYMRU

**Cleient**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 0604400

ARCADIS Design & Consultancy for natural and built assets

Swyddfa gofrestredig: Arcadis House, 34 York Way, Llundain N1 9AB
Swyddfa Cydlynu: Llawr 5, 4012 Faraday Street, Warrington WA3 6GA
www.arcadis.com

TEITL:

Ffigur 2:
Golwg manwl o safleoedd Natura 2000 gyda byffrau safleoedd
Tudalen 8 o 8

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyluniwyd gan | R.MILLMAN | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Gwiriwyd gan | J.WEAVER | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Cymeradwywyd gan | D.HOURD | Dyddiad 23MAW18 | Llofnodwyd |
| Graddfa: | 1:400,000 | Datwm: | AOD |
| Maint gwreiddiol: | A3 | Grid: | OS |
| Cod addasrwydd: | S2 | Rhif Prosiect: | 10012279 |

Disgrifiad o Addasrwydd: Cyhoeddwyd er gwybodaeth

Rhif Lluniad: 002-10012279-UE31D- Adolygiad: 01

© Cedwir pob hawl

50mm ar y gwreiddiol Dyddiad argraffu 04-20-18 09:47:24 C:\Users\rob.millman\ARCADIS\UA009148 Env Assessment of NDF - Dig_Eng_GIS\MXDs\002-10012279-UE31D-01-Detailed View of Natura 2000 Sites.mxd

Arcadis (UK) Limited

Arcadis Cymru House
Parc Busnes Llaneirwg
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0EY
Y Deyrnas Unedig

**arcadis.com**